Adolygiad Cerddoriaeth Draddodiadol

Traditional Music Review

# Adolygiad Cerddoriaeth Draddodiadol


| | |
|---|---|
| Rhagair gan y Comisiynydd | 2 |
| Crynodeb Gweithredol | 4 |
| **Prif Ganfyddiadau o'r Cyfweliadau Un-i-un** | 6 |
| Cyflwyniad | 8 |
| Methodoleg | 8 |
| Canfyddiadau'r Adolygiad | 11 |
| Llawr Gwlad | 13 |
| Datblygu Cerddorion | 16 |
| Cymorth a Datblygiad Proffesiynol | 18 |
| Rhwydweithiau a Chyfathrebu | 20 |
| Datblygu Cynulleidfa | 22 |
| Prif Ganfyddiadau o'r Cyfweliadau Un-i-un. | 24 |
| Sefydliadau a Mudiadau sy'n Cefnogi'r Sector | 24 |
| **Fèis Rois** | 25 |
| **TRACS** | 26 |
| **VI.BE** | 26 |
| Y Cyllid ar hyn o bryd i'r Celfyddydau yn y DU ac Iwerddon | 27 |
| Casgliadau | 28 |
| Atodiadau | 30 |

# Rhagair gan y Comisiynydd

Deunydd y 'bobl' yw cerddoriaeth draddodiadol, ac mae wedi bod felly erioed, wedi'i fynegi drwy gerddoriaeth a'i rannu gan y gymuned. Yn aml, mae'r byd sydd ohoni heddiw yn ystyried yr hyn sy'n 'draddodiadol' i fod yn rhywbeth sy'n rhan o ffabrig rhwygedig y gorffennol, yn ddarnau sydd wedi'u cadw'n fyw oherwydd rhyw hiraeth am oes aur ddiwylliannol a fu, ond dim ond os yw'r ffurf yn amherthnasol y daw hynny'n wir – pan fydd y traddodiad yn methu â siarad am y profiad o fod yn ddynol neu pan fydd y strwythurau cymunedol a diwylliannol sy'n ei gynnal wedi teneuo gymaint nes gwisgo at yr edau. Yn sicr, mae'r strwythurau cymunedol yr oedd ein cerddoriaeth draddodiadol yma yng Nghymru yn ffynnu drwyddynt ar un adeg wedi newid yn ddirfawr, ac eto mae'r gerddoriaeth a'i phwysigrwydd yn dal i ganu'n huawdl. A fyddem wedi cael y fath ymateb ysgubol i'r arolwg adolygu hwn – dros 280 o ymatebwyr – pe na bai?

Yr hyn a glywsom dro ar ôl tro gan y rhai a gymerodd ran yn yr adolygiad hwn yw nad yw'r strwythurau addysgol a chymunedol yma yng Nghymru bellach yn ddigon i gadw'r traddodiad yn fyw: i drosglwyddo'r sgiliau, meithrin mwynhad a mireinio doniau yn y ffurfiau cerddoriaeth draddodiadol. Mae hyn yn dweud mwy am y darnio cymunedol a'r diffyg ariannu ers tro ar addysg gerddoriaeth nag y mae am awydd unigolion i gymryd rhan a mwynhau cerddoriaeth draddodiadol. Pwysleisiodd y rheiny a ymatebodd fod angen ymyrraeth ar frys i alluogi pobl ifanc a rhai hŷn i godi offeryn neu ddefnyddio eu llais a dysgu hanfodion cymharol syml creu cerddoriaeth draddodiadol, yn ogystal ag i ysgogi a chefnogi gweithgareddau sy'n dod â chymunedau ynghyd ar sail creu a mwynhau cerddoriaeth draddodiadol.

Aethom hefyd i gwrdd ag ymarferwyr mewn ambell gornel o Gymru i glywed sut y mae creu cerddoriaeth draddodiadol yn parhau i fod yn ganolog i'w profiad o gymuned a diwylliant a'u hymdeimlad o hunaniaeth. Dyma ffaglau disglair ein traddodiad cerddoriaeth. Roedd gan y lleoedd hyn dri pheth allweddol yn gyffredin: roedd ganddynt ganran uchel o siaradwyr Cymraeg (yn siaradwyr mamiaith a dysgwyr), digon o bobl weithgar yn y traddodiad yn lleol i ddysgu a throsglwyddo'r traddodiad, a chymuned weithgar a oedd yn ymgynnull yn rheolaidd i chwarae a mwynhau'r gerddoriaeth hon. Ar adeg pan ydym yn wynebu epidemig o unigrwydd ac iechyd meddwl gwael, mae rhesymau i ysgogi a galluogi rhagor o gymunedau i ymgynnull a mynegi a gwneud cerddoriaeth gyda'i gilydd yn y ffordd hon felly o bwys hanfodol i lesiant unigol, cymunedol, diwylliannol ac amgylcheddol ein cenedl.

Dim ond os yw'n berthnasol y mae traddodiad yn ddiogel ac yn gallu ffynnu. Mae testunau ein cerddoriaeth draddodiadol mor berthnasol heddiw ag yr oeddent erioed: y cyflwr dynol, natur, cymuned, llanw bywyd, cysylltiad â thir a thirwedd. Yn wir mae rhai o'r rhain yn fwy perthnasol nag erioed wrth i ni wynebu cwymp amgylcheddol, difodiant torfol rhai rhywogaethau, ac ail-lunio'r hyn a ddeallwn i fod yn gymuned a hunaniaeth ddiwylliannol. Dros y degawd diwethaf, diddorol iawn i mi oedd gweld adfywio ar ganeuon gwerin a cherddoriaeth werin Saesneg, wedi'i ysgogi gan dwf y mudiad ecolegol a phryder amgylcheddol cynyddol ymhlith pobl ifanc. Mae prosiectau sy'n cysylltu natur a cherddoriaeth, megis 'Singing with Nightingales' Sam Lee a rhaglen flynyddol ymgynnull rownd y tân y Nest Collective, oll wedi codi i gefnogi ac ysgogi'r ailgysylltu hwn ymhellach. Yn bwysig, maent yn galluogi cenhedlaeth newydd i ddod o hyd i

ffordd o fynegi eu pryder a chael rheswm i ymgynnull, trefnu a gweithredu wrth gael cerddoriaeth draddodiadol yn graidd i'r cyfan. Mae'r rhain ymhlith y nifer o fodelau y gallwn ddysgu oddi wrthynt.

Mae cerddoriaeth draddodiadol yn ecosystem gyfoethog. Mae newidiadau mewn un rhan o'r system yn effeithio ar ran arall. Dro ar ôl tro, mae'r ymchwil a'r sgyrsiau yn dangos bod sector cerddoriaeth draddodiadol ffyniannus angen hyrwyddwyr dawnus sy'n gallu ac yn barod i rannu eu sgiliau ar lefel y gymuned. O'r pwys mwyaf i'r sector cyfan hwn yw cefnogi cerddorion traddodiadol Cymru sy'n dymuno gwneud eu bywoliaeth trwy gerddoriaeth a gwneud hyn trwy sicrhau bod strwythurau'n cefnogi datblygu gyrfaoedd portffolio, yn ogystal â threfnu cyfleoedd perfformio eang a rhyngwladol. Yma yng Nghymru, nid yw ffioedd proffesiynol ar gyfer perfformiadau cerddoriaeth draddodiadol (megis genres eraill) wedi newid fawr ddim mewn dros 15 mlynedd. Mae hyn yn rhoi pwysau aruthrol ar allu artist i fedru gwneud bywoliaeth, heb sôn am fuddsoddi amser i feithrin gweithgarwch cymunedol – rhywbeth y disgwylir iddynt yn aml ei wneud yn rhad ac am ddim. Felly, mae meithrin a chefnogi ein cerddorion traddodiadol talentog i greu, recordio a hyrwyddo eu cerddoriaeth er mwyn datblygu gyrfa a gwneud bywoliaeth yn eu galluogi i gynnig eu hamser i gefnogi ac ysgogi diddordeb ar lawr gwlad, ar yr un pryd hefyd â sicrhau bod gennym ni hyrwyddwyr adnabyddadwy a diwylliannol berthnasol i'r traddodiad i ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol.

Er gwaethaf ein hymdrechion gorau, ni chawsom ddigon o ymatebion gan gymunedau cerddoriaeth diwylliannol ac ethnig amrywiol yng Nghymru. Mae angen mwy o amser ac ymdrech i feithrin perthynas ac i ddeall gofynion penodol cymunedau amrywiol a manylion traddodiadau cerddoriaeth gwahanol, er mwyn cefnogi'r cerddoriaethau traddodiadol gwahanol hyn yn effeithiol i ffynnu yng Nghymru. Mae hyn yn elfen bwysig yn argymhellion yr adolygiad hwn.

Yn olaf, hoffwn ganmol y tîm sydd wedi gweithio ochr yn ochr â mi ar yr adolygiad hwn. Nid yw'r broses wedi bod heb drafodaethau anodd, ond nid ydym wedi osgoi hynny. Rwy'n ddiolchgar am eu penderfyniad i wasanaethu'r maes cerddoriaeth draddodiadol yng Nghymru drwy wrando ar y canfyddiadau a'r argymhellion a myfyrio arnynt, waeth beth fo'r effeithiau ar lefel bersonol neu sefydliadol ac am gynnig eu harbenigedd yn hael i'r gwaith hwn. Nid yw'n rhwydd parhau i fod yn wrthrychol pan fydd canmoliaeth a beirniadaeth ill dau yn glanio wrth eich traed, a bod yn rhaid adrodd y rheiny, ond roedd yn hanfodol rhoi sylw i'r gwaith hwn a'i ganfyddiadau fel pe baem yn dîm o ymgynghorwyr cwbl ddiduedd ac felly dyma gyflwyno a chynrychioli'r amrywiaeth eang o safbwyntiau y daethom ar eu traws.

Wrth gwrs, ni fyddai'r adolygiad hwn wedi bod yn bosibl heb haelioni amser a meddwl pawb wnaeth ein cyfarfod, siarad â ni, a chymryd rhan yn y gweithdai, yn ogystal â llenwi'r arolwg. Gobeithio ein bod wedi cynrychioli eu pryderon a'u syniadau yn effeithiol a'u cyfleu gyda'r ymdeimlad o frys, gobaith, ac egni ag y cawsant eu rhannu â ni.

**Angharad Wynne, Comisiynydd, Ionawr 2025**

# Crynodeb Gweithredol

Yn dilyn yr Adolygiad Buddsoddi yn 2023, dywedodd Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) y byddai'n cynnal adolygiad strategol o'r sector Cerddoriaeth Draddodiadol yng Nghymru i ystyried pa ffordd fyddai orau i gefnogi'r sector yn y dyfodol. Comisiynwyd Tŷ Cerdd, mewn partneriaeth â Trac Cymru, i fod yn dîm rheoli'r prosiect a phenodwyd Angharad Wynne yn Gomisiynydd i'r adolygiad.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng Hydref a Thachwedd 2024. Roedd y cyfarfodydd cyhoeddus a'r arolwg ar-lein yn seiliedig ar chwe maes allweddol, a'r cwestiynau'n gysylltiedig â phob maes ymholi. Drwy gydol y broses ymgynghori, cynigiwyd darlun neu gyfatebiaeth o'r sector cerddoriaeth draddodiadol fel coeden ac ecosystem gyda'r gwreiddiau yn cynnal 'boncyff' datblygu a'r dail, a gynrychiolai'r sector proffesiynol, yn bwydo'r gwreiddiau, gan ddisgrifio natur gydgysylltiedig y sector yng Nghymru. Bu i'r gyfatebiaeth hon gynorthwyo i fframio chwe maes yr ymholiad, a hwythau yn eu tro yn cyd-fynd â chwe blaenoriaeth ariannu CCC.

Mynychodd cyfanswm o 60 o bobl y cyfarfodydd cyhoeddus, ymatebodd 186 o bobl drwy'r arolwg ar-lein, a bu 10 arall yn rhan o gyfweliadau un-i-un, gan wneud hwn yr ymateb mwyaf i ymgynghoriad adolygiad gan y CCC. Manylir isod am y chwe maes, ynghyd â'r casgliadau a daethpwyd iddynt o'r ymgynghoriad.

## Llawr Gwlad

Y maes hwn yn yr ymgynghoriad a gafodd y nifer fwyaf o ymatebion, yn y cyfarfodydd cyhoeddus ac yn yr arolwg. Mae mwyafrif yr ymatebion yn cefnogi'r angen i gael mynediad gwell at gyfleoedd dysgu i bobl ifanc. Gan amlaf, llawr gwlad yw'r maes sy'n peri'r pryder mwyaf, i bobl ifanc ac i grwpiau pob oed ar draws y cymunedau.

Gellid cefnogi'r gweithgareddau hyn drwy'r canlynol:

- Swyddi datblygu rhanbarthol strategol wedi'u cefnogi gan gorff canolog.
- Cronfa Loteri wedi'i chlustnodi ar gyfer grantiau bach i gerddoriaeth draddodiadol.
- Rhwydwaith strategol o randdeiliaid (Mentrau Iaith, yr Urdd, cymdeithasau cerdd, ac ati) yn meithrin cysylltiadau cymunedol, rhanbarthol a llawr gwlad.
- Ysgogi sefydlu rhaglen ar gyfer gweithgarwch dysgu a chymryd rhan wedi'u hysbrydoli gan fentrau llwyddiannus (e.e. Fèis Rois) i ymgysylltu â phobl ifanc trwy sesiynau anffurfiol a jamiau.
- Targedu cerddoriaeth draddodiadol heb gynrychiolaeth ddigonol o gymunedau lleiafrifol ledled Cymru.

## Addysg

Mae addysg cerddoriaeth draddodiadol, yn anffurfiol a ffurfiol, yn gysylltiedig agos â'i datblygiad ar lawr gwlad. O ran datblygiad cerddoriaeth draddodiadol mewn lleoliadau addysg mwy ffurfiol, mae'r pwyntiau canlynol yn cynnig meysydd ar gyfer eiriolaeth, trafodaeth a phartneriaeth â chyrff addysg perthnasol:

- Sefydlu partneriaeth strategol â Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol Cymru i integreiddio cynnwys cerddoriaeth draddodiadol i raglenni presennol, hyfforddiant athrawon, adnoddau myfyrwyr a'r offer mewn ystafelloedd dosbarth.
- Codeiddio cerddoriaeth draddodiadol Cymru i gadw a lledaenu ei phriodoleddau, gan ddarparu adnoddau addysgu wedi'u graddio i hwyluso dysgu. Partneriaethau rhwng cyrff addysg a'r sector cerddoriaeth.
- Partneriaeth strategol ag addysg uwch, yn gapsiwl maes llafur i ddechrau arni ac, yn ddiweddarach, yn llwybr gradd penodol.

## Datblygu Cerddorion

Canolbwyntiai'r maes hwn yn yr adolygiad ar lwybrau datblygu a'r cyfleoedd i gerddorion symud o ymwneud â'r byd llawr gwlad tuag at ddatblygu gyrfa bosibl mewn cerddoriaeth draddodiadol. Awgryma'r ymatebion am y maes hwn yn yr adolygiad y dylid cael dull cyfannol i ddatblygu artistiaid, fel y dangosir drwy'r gymhariaeth â 'choeden'. Roedd ymateb clir o blaid cefnogi artistiaid ifanc neu artistiaid sydd ar ddechrau eu gyrfa ac sydd angen mwy o gyfleoedd i berfformio ynghyd â chefnogaeth i dargedu prosiectau datblygu. Gellid cefnogi'r maes hwn drwy:

- Ysgogi sefydlu llwybrau wedi'u targedu i ddatblygu artistiaid ar draws ystod o anghenion gyrfa a'r rhain wedi'u rhedeg gan y sector cerddoriaeth a cherddorion traddodiadol.
- Datblygu rhaglen barhaus o fentora a chefnogaeth, rhwydweithio a gweithgareddau cefnogi cyfoedion.
- Targedu cerddoriaeth draddodiadol nad oes ganddi gynrychiolaeth ddigonol o gymunedau lleiafrifol ledled Cymru.

## Datblygiad a Chymorth Proffesiynol

Canolbwyntiai maes hwn yr arolwg ar anghenion cerddorion traddodiadol lled-broffesiynol a rhai proffesiynol i ddatblygu eu crefft a'u gyrfaoedd. Nodwyd angen i gefnogi cyfleoedd i arddangos yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, yn ogystal â chyllid i alluogi artistiaid i recordio a theithio, a'r angen am fwy o gefnogaeth i'r diwydiant. Soniwyd hefyd am gyfleoedd hyfforddi a mentora i fod yn faes lle roedd angen cefnogaeth. Gellid cefnogi datblygiadau drwy:

- Ysgogi sefydlu llwybrau wedi'u targedu i ddatblygu artistiaid ar draws ystod o anghenion gyrfa a'r rhain wedi'u rhedeg gan y sector cerddoriaeth a cherddorion traddodiadol.
- Datblygu rhaglen barhaus o fentora a chefnogaeth, rhwydweithio a gweithgareddau cefnogi cyfoedion.
- Targedu cerddoriaeth draddodiadol heb gynrychiolaeth ddigonol o gymunedau lleiafrifol ledled Cymru.

## Rhwydweithiau a Chyfathrebu

Canolbwyntiai'r maes hwn yn yr ymgynghoriad ar adnoddau, gwybodaeth, arbenigedd, cyllid a chyfleoedd. Roedd mwyafrif yr ymatebion yn adlewyrchu anhawster wrth gael mynediad at wahanol fathau o wybodaeth, e.e. repertoire, rhestrau digwyddiadau perfformio, sesiynau,

cysylltiadau allweddol yn y sector, ffynonellau cyllid a hyrwyddwyr y traddodiad. Er mwyn dechrau mynd i'r afael â'r materion a godwyd, mae angen:

- Asesiad o'r asedau presennol yn y sector cerddoriaeth draddodiadol a chynllun strategol yn deillio o hynny yn ymwneud ag arweinyddiaeth, datblygiad a chyllid y sector.
- Meithrin rhwydweithio ledled y sector drwy gynnal fforymau ar-lein yn rheolaidd a chael systemau gwybodaeth gwell.

## Datblygu Cynulleidfa

Roedd yr ymatebion ar y maes hwn yn yr ymgynghoriad yn adlewyrchu'r pwyslais a roddir ar y gwaith ar lawr gwlad, sef bod cael cyfleoedd i gymryd rhan ac sy'n datblygu ymgysylltiad yn flaenoriaeth uchel ar gyfer datblygu cynulleidfaoedd. Mae dyhead i gael perfformiadau a sesiynau lleol rheolaidd hefyd yn adlewyrchu ffocws ar gefnogi digwyddiadau cymunedol. Mynegodd llawer o ymatebwyr hefyd yr angen i gynyddu proffil cerddoriaeth draddodiadol yn y cyfryngau, ar y radio ac ar raglenni teledu Cymru. Nodwyd bod angen cael y canlynol:

- Cysylltiadau strategol â'r sectorau cyflwyno a'r cyfryngau fel rhan o ddatblygu'r sector a dull seiliedig ar asedau.
- Arbrofion yn seiliedig ar brosiectau e.e. teithio, ymgysylltu (trwy grantiau gan y Loteri Genedlaethol a Noson Allan, ac ati.)

## Prif Ganfyddiadau o'r Cyfweliadau Un-i-un

Dewiswyd yr unigolion i'w cyfweld ar gyfer y sgyrsiau hyn gyda'r Comisiynydd ar sail ceisio cael amrywiaeth o safbwyntiau ar draws y sector ac ar sail eu gallu i gynnig mewnwelediadau manwl ac/neu gynrychioli partneriaid allweddol neu gyd-ddarparwyr yn benodol yn y meysydd gweithgarwch sy'n cael sylw yn yr adolygiad. Roedd rhai themâu a godai'n aml sy'n werth sôn amdanynt yma, ac sy'n berthnasol i ganfyddiadau'r adolygiad a'i gasgliadau a'i argymhellion, sef:

- Angen am fwy o gydweithio ar draws y sector a mentrau ar y cyd.
- Gwagle lle dylai arweinyddiaeth strategol fod yn y sector.
- Mae angen ymgysylltu â chronfa dalent ehangach wrth ddatblygu a chynnal gwasanaethau a phrosiectau i'r sector.

## Sefydliadau a Mudiadau sy'n Cefnogi'r Sector

Edrychodd yr adolygiad ar 16 o sefydliadau cerddoriaeth ledled y byd i gymharu gwahanol ddulliau o gefnogi a datblygu cerddoriaeth draddodiadol. O'r rhain, gallwn ddod i rai casgliadau ynghylch arferion gorau a'r arferion mwyaf cyffredin i fod yn sail i argymhellion i gefnogi'r sector cerddoriaeth draddodiadol yma yng Nghymru. Nodwyd tri sefydliad i'w dadansoddi'n fanylach, sef Fèis Rois, Vi.BE a TRACS. Dewiswyd y sefydliadau hyn oherwydd eu bod wedi'u nodi yn enghreifftiau o arfer da, gan adlewyrchu carfanau penodol sy'n cyd-fynd yn dda â'r themâu a gododd o dystiolaeth yr ymgynghoriad.

## Y Cyllid ar hyn o bryd i'r Celfyddydau yn y DU ac Iwerddon

Er bod cynghorau celfyddydau'r Deyrnas Unedig ac Iwerddon oll yn cefnogi cerddoriaeth draddodiadol mewn gwahanol ffurfiau, nid oes consensws clir rhyngddynt ynghylch beth sy'n cyfrif fel disgrifiad pendant o gerddoriaeth draddodiadol. Er nad oes cymhariaeth amlwg, eto mae'r cynghorau celfyddydau eraill yn nodi cyfartaledd o 2.9% o gyfanswm eu dosraniad tuag at gerddoriaeth draddodiadol, gyda Creative Scotland yn rhoi'r gyfran uchaf o 4.8% yn 2024 a Chyngor Celfyddydau Cymru yr isaf sef 0.66%. Mae angen gwneud gwaith i gael gwell cymariaethau ystadegol, ond mae'n amlwg nad yw CCC yn buddsoddi ar yr un raddfa â'r cynghorau celfyddydau eraill.

# Cyflwyniad

Comisiynodd Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) yr adolygiad strategol hwn o'r sector Cerddoriaeth Draddodiadol yng Nghymru er mwyn pwyso a mesur y ffordd orau y gall gefnogi'r sector yn y dyfodol, a sut y gall y sefydliadau yn y sector – ar bob lefel – weithio'n fwy cydlynol ar ran ein cerddorion, ein cymunedau a'n cynulleidfaoedd.

Mae ein cenedl yn wlad o gyfoeth ac amrywiaeth ddiwylliannol gynyddol, ac felly, ochr yn ochr â cherddoriaeth draddodiadol Cymru ei hun, nod yr adolygiad hwn oedd cofleidio ehangder cerddoriaeth draddodiadol sydd *yng* Nghymru, ac annog ymarferwyr, athrawon a hwyluswyr o bob rhan o'n cymunedau amrywiol i gynnig eu barn a siarad â ni am eu hanghenion penodol.

Penodwyd Angharad Wynne yn Gomisiynydd yr adolygiad a gofynnwyd i Tŷ Cerdd, mewn partneriaeth â Trac Cymru, i fod yn rheolwr prosiect ar y broses. Mae Tŷ Cerdd yn sefydliad datblygu cerddoriaeth ac yn elusen gofrestredig sydd â'r nod o hyrwyddo a dathlu cerddoriaeth Cymru trwy ystod o weithgareddau. Mae Trac Cymru yn datblygu cerddoriaeth werin ac yn elusen gofrestredig sydd â'r nod o hyrwyddo a datblygu traddodiadau cerdd a dawns Cymru.

Mae gan y tîm hwn hanes rhagorol o weithio'n ymgynghorol ar draws sectorau cerddoriaeth Cymru. Penodwyd Antwn Owen-Hicks, sydd â chyfoeth o brofiad personol a phroffesiynol yn y sector, yn brif reolwr y prosiect ar ran Tŷ Cerdd.

# Methodoleg

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar gyfer yr adolygiad rhwng Hydref a Thachwedd 2024. Roedd y cyfarfodydd ymgynghori a'r arolwg yn seiliedig ar chwe maes allweddol, gyda chwestiynau'n ymwneud â phob maes ymholi.

Edrychodd yr adolygiad ar natur gweithgareddau cerddoriaeth draddodiadol, mynediad at y gerddoriaeth a'r ymgysylltu â hi, llwybrau ar gyfer addysg, datblygu a gyrfaoedd proffesiynol, mynediad at wybodaeth, seilwaith a datblygu/marchnata cynulleidfaoedd. Nid yw'r un o'r meysydd hyn yn sefyll ar eu pen eu hunain. Mae pob un wedi'i gysylltu'n annatod â'r lleill ac, wrth gwrs, â phryderon cymdeithasol, gwleidyddol ac amgylcheddol ehangach, gan gynnwys adeiladu cymunedau, lles, datblygu iaith, hunaniaeth ddiwylliannol, cydraddoldeb, cydnerthedd economaidd ac ymwybyddiaeth a gweithredu amgylcheddol.

Dechreuodd y broses adolygu drwy gynnal dwy sesiwn ar-lein gyda chynrychiolwyr gwadd gan gynnwys gweithwyr proffesiynol celfyddydol o'r sector cerddoriaeth draddodiadol yn ogystal â hyrwyddwyr, celfyddydau cymunedol, rheolwyr lleoliadau, ac ymarferwyr diwylliannol eraill (gweler Atodiad 1). Mynychodd 15 o weithwyr proffesiynol y ddwy sesiwn. Pwrpas y ddwy sesiwn hyn oedd datblygu sail y prif feysydd ymholi ar gyfer yr arolwg a'r cyfarfodydd cyhoeddus wyneb yn wyneb. Yn ogystal, cynhaliodd y tîm gyfarfod ar-lein gyda phump o aelodau allweddol CCC i gael eu barn a'u mewnwelediadau hwythau.

Cynhaliwyd chwe chyfarfod wyneb yn wyneb rhwng 14 Hydref a 7 Tachwedd yn Neuadd Les Ystradgynlais, ar y cyd â Privilege Café, Theatr Soar Merthyr Tudful, Pafiliwn y Grange Caerdydd, Theatr Felinfach, Tŷ Pawb Wrecsam a Neuadd Ogwen Bethesda. Cynhaliwyd y sesiwn Zoom olaf ar-lein ar 11 Tachwedd.

Lansiwyd yr holiadur ar-lein ddydd Gwener 18 Hydref ac roedd ar agor i ymatebion tan 18 Tachwedd.

Cynhaliwyd ymchwil desg i fodelau perthnasol gan genhedloedd eraill a allai gynnig gwybodaeth neu ysbrydoliaeth werthfawr. O'r 16 model sefydliadol a phrosiectau a astudiwyd gennym, gwelwyd bod llond llaw yn berthnasol i'r heriau y mae'r sector yng Nghymru yn eu hwynebu neu'n ysbrydoliaeth ar gyfer sut y gellid ei wasanaethu'n well. Cânt eu crybwyll yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn ac mae manylion pellach i'w cael yn Atodiad 3.

Cynhaliodd y Comisiynydd hefyd gyfres o drafodaethau un-i-un gyda chynheiliaid traddodiad, addysgwyr, dylanwadwyr yn y sector a gwneuthurwyr penderfyniadau mewn sefydliadau allweddol i gwestiynu a phrofi dilysrwydd ac ymarferoldeb yr argymhellion. Roedd canlyniadau'r cyfweliadau hyn yn fras yr un fath â chanfyddiadau'r arolwg, ond fe wnaethant hefyd nodi meysydd yr oedd angen sylw arnynt, a hynny'n benodol yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth a datblygu cydweithredol a'r angen am arweinyddiaeth strategol yn y sector. Amlinellir y rhain yn yr adroddiad isod. (Mae rhestr enwau'r rheiny a gyfwelwyd yn Atodiad 1.)

Mynychodd cyfanswm o 60 o bobl y cyfarfodydd cyhoeddus, ymatebodd 186 o bobl drwy'r arolwg ar-lein ac fe gafodd 11 arall eu cyfweld un-i-un, gan wneud hwn yr ymateb mwyaf i ymgynghoriad adolygu gan CCC ac yn dangos cryfder y teimlad a'r angerdd yn y sector dros wneud mwy o waith datblygu.

Cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd cyhoeddus ac ar-lein yn Gymraeg ac yn Saesneg, gyda chyfieithu ar y pryd ar gael yn y cyfarfodydd ar-lein. Arweiniwyd y chwe chyfarfod wyneb yn wyneb gan siaradwyr Cymraeg a gallai'r rhai a gymerodd ran ymateb yn Gymraeg neu'n Saesneg. O'r 186 o ymatebwyr i'r arolwg, roedd 64% yn siaradwyr Cymraeg, canran uchel iawn. Dywedodd tua 49% o'r ymatebwyr eu bod wedi'u lleoli yn y De, gyda 26% yn nodi canolbarth a gorllewin Cymru a 14% yn y Gogledd. Mae hynny'n gadael tua 11% o ymatebwyr na nododd eu lleoliad.

Yn anffodus, er gwaethaf nod yr adolygiad i ystyried yr ystod o gerddoriaeth draddodiadol yng Nghymru, ychydig iawn o ymgysylltiad a gafwyd gan unigolion neu gymunedau sy'n ymwneud â cherddoriaeth draddodiadol o gefndiroedd diwylliannol lleiafrifol.

Cynhaliwyd y sesiwn gyhoeddus yn Neuadd Les Ystradgynlais ar y cyd â'r Privilege Café, gyda sesiwn ar *Cynefin, home, place, language and race*. Mynychodd aelodau o'r gymuned Syriaidd leol, er bod iaith yn rhwystr amlwg i ymgysylltu. Fodd bynnag, ymunodd Mymuna Solema, sylfaenydd y Privilege Café ac ymarferydd dawns Somaliaidd, â'r sesiwn gan roi mewnbwn gwerthfawr.

Cynhaliwyd y sesiwn gyhoeddus yng Nghaerdydd ym Mhafiliwn y Grange gyda Dionne Bennett, Cyfarwyddwr TÂN Cerdd, yn bresennol. Ni ddenodd y sesiwn hon aelodau o'r gymuned leol yn y ffordd yr oeddem wedi'i gobeithio. Fodd bynnag, roedd mewnbwn Dionne i'r sesiwn honno yn werthfawr.

Mae hwn yn faes sydd o bosibl angen ffocws penodol arno gan CCC ac efallai ei fod yn dangos problem ehangach yn ymwneud ag ymgysylltu â'r celfyddydau gyda chymunedau lleiafrifol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae llawer o'r materion a'r sylwadau a godwyd yn y cyfarfodydd a'r arolwg a'r argymhellion sy'n deillio o hynny yn berthnasol ac yn gymwys ar draws pob math o gerddoriaeth draddodiadol. Efallai y bydd angen sgwrs bellach, fanylach, i ddatgelu rhai o faterion a gofynion mwy penodol cymunedau lleiafrifol a sut y gellir cefnogi eu ffurfiau cerddoriaeth draddodiadol hwy.

Ceir tabl yn crynhoi'r ymatebion yn Atodiad 2.

# Canfyddiadau’r Adolygiad

Yn ystod y sesiwn ar-lein gyntaf gyda gweithwyr proffesiynol y celfyddydau, oedd â’r nod o bennu prif feysydd ffocws yr adolygiad, disgrifiodd un o’r mynychwyr y sector cerddoriaeth draddodiadol fel coeden ac ecosystem. Mae’r gwreiddiau’n cynnal ‘boncyff’ datblygiad ac mae’r dail hwythau, fel y sector proffesiynol, yn bwydo’r gwreiddiau, sef proses gylchol o dwf ac adnewyddu.

**CANOPI**

Cynnal gyrfaoedd proffesiynol neu led-broffesiynol.

**BONCYFF**

Llwybrau i yrfa broffesiynol neu led-broffesiynol a datblygu cynulleidfaoedd

**GWREIDDIAU**

Cymuned, addysg, dysgu, lles. Cerddoriaeth yn adloniant, cymryd rhan.



Soniodd ymatebwyr yn ystod y cyfnod ymgynghori hefyd am yr ymdeimlad hwn o’r sector cerddoriaeth draddodiadol fel ecosystem er mwyn mynegi sut mae elfennau’r sector yn perthyn i’w gilydd a pha mor gysylltiedig yw’r gerddoriaeth ag agweddau eraill ar fywyd yma yng Nghymru.

“Mae ein cerddoriaeth draddodiadol yn rhan gwbl greiddiol o hunaniaeth Cymru. Rhaid ei diogelu a’i hyrwyddo yng Nghymru a thu hwnt er lles ysbrydol, diwylliannol, ieithyddol ac economaidd ein cenedl. Dylai fod yn allweddol wrth ddiffinio a chreu cymunedau.”

“Nid yw’n ddigon cynhyrchu llond llaw o gerddorion talentog, rhaid inni edrych yn ofalus ar yr ecosystem cyfan sydd wedi’u cynhyrchu nhw a deall y gwaith (sy’n aml yn rhwystredig iawn o ganlyniad i ddiffyg cyllid) sydd wedi digwydd i alluogi hyn. Mae Cymru’n haeddu gwell.”

Efallai yn wahanol i ffurfiau celf eraill, mae’r gymuned cerddoriaeth draddodiadol yn gweld ei hun fel gwe o gydberthynasau gwahanol, rolau sydd y tu allan i ddisgwyliadau arferol artist, gweithiwr proffesiynol yn y diwydiant ac aelodau’r gynulleidfa. Mae hyn yn egluro pam y mae llawer o’r ymatebion yn sôn am gylch ymgysylltu a bod cerddorion proffesiynol yn trafod cyd-destun cymdeithasol y gerddoriaeth hon gymaint ag y maent am eu gyrfa a’u huchelgeisiau.

Dyma’r chwe maes ymholi a nodwyd, ynghyd â sut maent yn cyd-fynd â chwe blaenoriaeth ariannu CCC:

- Llawr gwlad
- Addysg
- Datblygu cerddorion
- Datblygiad a chymorth proffesiynol
- Rhwydweithiau a chyfathrebu
- Datblygu cynulleidfa

- **Ehangu ymgysylltiad** drwy ganolbwyntio ar ysgogi a chefnogi cymryd rhan mewn creu cerddoriaeth ar lawr gwlad ar gyfer pob oed a gallu, a datblygu darpariaeth addysgu o addysg gynradd i addysg uwch.
- **Creadigrwydd** – cysylltu cerddoriaeth draddodiadol â’i tharddiad o fod yn fynegiant o’r ‘gwerin’ i gyfranogwyr a chynulleidfaoedd, gan gefnogi sut y gall cerddoriaeth draddodiadol ddod â phobl ynghyd i greu celf sy’n berthnasol ac yn gynhwysol.
- **Meithrin dawn** ac ymarfer cyfoes arloesol ar yr un pryd ag anrhydeddu a chefnogi gwreiddiau’r traddodiad.
- **Y Gymraeg** – dathlu nodweddion unigryw ardaloedd gwahanol drwy greu cerddoriaeth fel ffordd o chwalu rhwystrau, gan gynnwys ymgysylltu â Chymraeg a Chymreictod. Cefnogi gweithgareddau cerddoriaeth rhanbarthol drwy fabwysiadu dull datblygu rhanbarthol.
- **Cyfiawnder Hinsawdd** – codi ymwybyddiaeth o ecoleg a hawliau tir, hunaniaeth ddiwylliannol, iaith ac amrywiaeth, protest, y cyflwr dynol.
- **Trawsnewid** – ymgysylltiad, cydlyniant a lles cymunedol drwy gynnig mwy o gyfleoedd sy’n pontio’r cenedlaethau i bobl ymgynnull ar sail cerddoriaeth draddodiadol. Datblygu systemau, cyllid, prosiectau a gweithgarwch sy’n galluogi holl gerddoriaeth draddodiadol Cymru a’i chymunedau i ffynnu.

# Llawr Gwlad

Canolbwyntiai elfen hon yr ymgynghoriad ar gyfranogiad cymunedol, cael y blynyddoedd cynnar i fod yn rhan, gweithgareddau pontio'r cenedlaethau, gweithdai a sesiynau. Dyma gafodd nifer uchaf yr ymatebion o bell ffordd yn holl feysydd yr adolygiad, yn y cyfarfodydd cyhoeddus ac yn yr arolwg.

Dim ond 22% o'r ymatebwyr a ddywedodd ei bod hi'n RHWYDD ymgysylltu â cherddoriaeth draddodiadol yng Nghymru. Fodd bynnag, dywedodd 57% fod yr ymgysylltiad yn DEG.

Roedd y rhesymau dros beidio â dewis RHWYDD yn ymwneud yn bennaf â diffyg gweithgareddau neu gyfleoedd lleol i ymgysylltu (64%), neu "**nad yw'n hawdd gweld ble a phryd mae sesiynau, gweithgareddau neu berfformiadau cerddoriaeth draddodiadol yn digwydd**" (59%). O'r holl ymatebion, dywedodd 40% fod diffyg tiwtora fforddiadwy yn eu hardal.

Mae sawl thema a neges glir yn amlwg drwy'r holl ymatebion yn yr adran hon:




- Cyfleoedd i gymryd rhan – gweithgareddau cerddoriaeth draddodiadol cymunedol a hybiau rhanbarthol ar gael ac sy'n rhwydd mynd iddynt/eu defnyddio.
- Denu pobl at gerddoriaeth draddodiadol.
- Chwalu rhwystrau i gyfranogi.
- Mentrau fel Gwerin Gwallgo, clybiau alawon, ac ati.
- Cyfleoedd chwarae sy'n pontio'r cenedlaethau yn y cymunedau.
- Angen am systemau gwybodaeth gwell.
- Gwell mynediad at repertoire cerddoriaeth draddodiadol.
- Lleoliadau addas, rhad ar gyfer cynnal sesiynau, twmpathau, digwyddiadau bychain.

Pan ofynnwyd iddynt roi mwy o fanylion, dywedodd ambell ymateb allweddol ei bod hi'n anodd cael mynediad at gerddoriaeth draddodiadol:

- Gall pellter i ddigwyddiadau fod yn rhwystr, yn ogystal â diffyg trafnidiaeth gyhoeddus leol.
- Nid oes digon o gerddorion i gynnal neu arwain sesiwn, neu i ddechrau sesiynau newydd y tu hwnt i'r rheiny sydd wedi hen ennill eu plwy.
- "Nid oes cronfa ddata ganolog na grŵp Facebook er bod rhai ohonom wedi sefydlu un fel unigolion pan welsom y diffyg."
- "Nid oes 'sesiynau dechrau arni' na 'jamiau araf' na ffordd o fynd i mewn. Mae diffyg arweinyddiaeth mewn rhai sesiynau."

Ar y llaw arall, rhoddodd rhai ohonynt enghreifftiau da o sut maent wedi ymgysylltu:

- "Mae'n rhwydd unwaith rydych chi y tu mewn i'r cylch, sa i mor siŵr pa mor hawdd fyddai dod o hyd iddo ar y dechrau."

- "Ambell Glwb Gwerin, Ethno Cymru, yr Eisteddfod, yr Urdd, ambell athro ac addysgwr unigol, rhai yn yr Ysgol Feithrin (cyflwyno caneuon, dawnsfeydd a straeon syml.)"
- "Mae mentrau fel Trac, CLERA a datblygu clybiau alawon wedi rhoi llawer mwy o gyfleoedd i ymgysylltu â cherddoriaeth draddodiadol Cymru."

Thema gref oedd yr angen i ddatblygu gweithgareddau sydd â ffocws rhanbarthol iddynt, gan gynnwys creu 'hybiau' rhanbarthol ar gyfer cerddoriaeth draddodiadol, neu ar gyfer arweinwyr datblygu rhanbarthol er mwyn rhoi modd cydlynu a datblygu gweithgareddau'n lleol.

- "Canolbwyntio ar leoliadau cymunedol ar lawr gwlad lle mae cerddoriaeth yn digwydd a chefnogi grwpiau cymunedol i ddatblygu eu grwpiau cerddoriaeth eu hunain."
- "Sefydlu 5 cydlynydd rhanbarthol sydd â'r wybodaeth a'r profiad o weithio'n broffesiynol er mwyn iddynt fedru cynghori a datblygu'r cerddorion yn eu hardal, ond hefyd rhannu gwybodaeth a gwasanaethau arbennig ar draws yr ardaloedd."
- "Creu 5 swyddog rhanbarthol – gogledd-orllewin, gogledd-ddwyrain, canolbarth, de-orllewin, de-ddwyrain."

## Casgliadau

Mae mwyafrif yr ymatebion sy'n ymwneud â llawr gwlad yn cefnogi'r angen i gael gwell mynediad at gyfleoedd dysgu i bobl ifanc, boed mewn addysg neu leoliadau cymunedol anffurfiol. Pobl ifanc yw'r maes sy'n peri'r pryder mwyaf, gydag angen am ymyriadau i ysgogi'r ecosystem o'r gwaelod i fyny. Gallai'r rhain gynnwys gweithgarwch rheolaidd i bobl ifanc a grwpiau pob oed gymryd rhan ynddynt ar lefel gymunedol a lleol, gweithdai, sesiynau, hyfforddiant, ac ati. Gellid cefnogi'r gweithgareddau hyn drwy'r canlynol:

- Rheolwyr datblygu rhanbarthol strategol
- Cronfa'r Loteri Genedlaethol wedi'i chlustnodi ar gyfer grantiau bach i gerddoriaeth draddodiadol.
- Cydweithio â rhwydwaith strategol o randdeiliaid (Mentrau Iaith, yr Urdd, sefydliadau cerdd, ac ati) i feithrin cysylltiadau cymunedol, rhanbarthol a llawr gwlad.
- Ysgogi sefydlu rhaglen ar gyfer gweithgarwch dysgu a chymryd rhan wedi'u hysbrydoli gan fentrau llwyddiannus (e.e. Fèis Rois) i ymgysylltu â phobl ifanc trwy sesiynau anffurfiol a jamiau.
- Targedu cerddoriaeth draddodiadol heb gynrychiolaeth ddigonol o gymunedau lleiafrifol ledled Cymru.

# Addysg

Mae addysg cerddoriaeth draddodiadol, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, wedi'i chysylltu'n agos â datblygiad ar lawr gwlad. Roedd y sylwadau a gafwyd ynghylch rhwyddineb mynediad at gerddoriaeth draddodiadol hefyd yn cynnwys yr angen i gerddoriaeth draddodiadol fod yn rhwydd ei chael mewn ysgolion, fel rhan o'r cwricwlwm.

Pan ofynnwyd yn yr arolwg "Beth yw'r prif ffactorau sy'n effeithio ar ddysgu offeryn cerdd neu ganu mewn arddull draddodiadol yma yng Nghymru?", ateb 61.5% o'r ymatebwyr oedd "Diffyg athrawon yn addysgu mewn arddull draddodiadol yn lleol".

Dyma'r prif feysydd pryder a godwyd gan yr ymatebwyr:

- Mynediad a chyfle: yr angen am gyfleoedd addysg a dysgu i bobl ifanc a rhai hŷn.
- Diffyg darpariaeth mewn addysg gynradd ac uwchradd.
- Yr angen am gyfleoedd rheolaidd i gymdeithasu a chwarae 'y tu allan i'r ysgol' i bobl ifanc.
- Darpariaeth addysg ar lefel uwch – yr angen am ddarpariaeth Safon Uwch, lefel gradd ac ôl-radd.

Dyma rai sylwadau:

- "Diffyg hyfforddiant rheolaidd i blant a phobl ifanc. Mae Gwerin Iau a Gwerin Gwallgo yn wych, ond dyw unwaith y flwyddyn ddim yn ddigon o bell ffordd."
- "[Dylid] ariannu perfformiadau mewn ysgolion. Sybsideiddio cost dysgu cerddoriaeth."
- Doeddwn i ddim wedi cwrdd â phobl ifanc eraill o Gymru oedd â diddordeb mewn cerddoriaeth werin nes i mi fynychu cwrs Gwerin Gwallgo Trac Cymru pan oeddwn i'n 14 oed, ac mae'n debyg na fyddwn i byth wedi cwrdd ag unrhyw un oni bai am y cwrs hwnnw."
- "pwysig...bod y datblygu [cerddoriaeth draddodiadol] yn cael ei gydnabod, ei annog a'i ariannu ar lefel addysg uwch – h.y. Coleg Cerdd."

## Casgliadau

O ran datblygu cerddoriaeth draddodiadol mewn lleoliadau addysg mwy ffurfiol, mae'r pwyntiau canlynol yn cynnig meysydd ar gyfer eiriolaeth, ymyrraeth a thrafodaeth gyda chyrff addysg perthnasol:

- Sefydlu partneriaeth strategol gyda Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol Cymru i integreiddio cynnwys cerddoriaeth draddodiadol mewn rhaglenni sy'n bodoli eisoes, hyfforddiant athrawon, adnoddau myfyrwyr ac offer i ystafelloedd dosbarth.
- Codeiddio cerddoriaeth draddodiadol Cymru i gadw a lledaenu ei phriodoleddau, gan ddarparu adnoddau addysgu wedi'u graddio i hwyluso dysgu. Partneriaethau rhwng cyrff addysg a'r sector cerddoriaeth.
- Partneriaeth strategol ag addysg uwch, yn gapsiwl maes llafur i ddechrau arni ac, yn ddiweddarach, yn llwybr gradd penodol.

# Datblygu Cerddorion

Canolbwyntiai rhan hon yr adolygiad ar lwybrau datblygu, y cyfleoedd sy'n bodoli i symud o ymwneud ar lawr gwlad tuag at ddatblygu gyrfa bosibl mewn cerddoriaeth draddodiadol.

Pan ofynnwyd sut y gellid cefnogi rhagor o gerddorion i ddatblygu gyrfaoedd proffesiynol neu led-broffesiynol mewn cerddoriaeth draddodiadol, dewisodd 65% o'r ymatebwyr "**Prosiectau sy'n dwyn ynghyd berfformwyr, lleoliadau, mentoriaid a chynheiliaid traddodiadau i gyd-greu, dysgu, rhannu profiadau a gwybodaeth, a chael perfformiadau**".

Dewisodd 47% o'r ymatebwyr "Rhagor o gyfleoedd â chymorth ar gyfer perfformio a datblygu profiad perfformio".

Dyma'r themâu clir a ddaeth i'r amlwg o'r maes ymholi hwn:

- Mynediad at addysgu, mentora a hyfforddiant uwch yn lleol neu'n rhanbarthol.
- Egluro a dylunio llwybrau datblygu.
- Ymyriadau a phrosiectau datblygu, e.e. 10 Mewn Bws.
- Cynyddu cyfleoedd perfformio.
- Mentrau datblygu sgiliau – busnes, marchnata, datblygu cynulleidfaoedd, perfformio a thechnegol.
- Ffynonellau ariannu mwy hyblyg, grantiau bychain ac addasiadau i gynllun Noson Allan i alluogi mwy o weithdai dan arweiniad cerddorion.

Soniodd rhai o'r ymatebion i'r arolwg am y problemau i gerddorion gwerin sydd eisiau datblygu gyrfaoedd mewn cerddoriaeth.

- "Mae prosiectau fel Twmpdaith yn wych, ond mae angen mwy o gyfleoedd ym mhob ysgol, gan gynnwys ysgolion Saesneg, i hyrwyddo'r Gymraeg."
- "Mae artistiaid sy'n datblygu wedi cael prosiectau fel 10 Mewn Bws, yn ogystal â chefnogi cerddorion i fynychu WOMEX, gan gydweithio gyda Rhwydwaith Gwerin Ewrop."
- "Mwy o gyfleoedd wedi'u hariannu ar gyfer cyrsiau datblygu gyrfa/mentora/cyfarfodydd rhwydweithio tebyg i encil sy'n hygyrch i bobl ar incwm isel ac sydd wedi'u hanelu at bobl yn gynnar yn eu gyrfa yn hytrach na phobl ifanc yn unig."
- "Newid hirdymor fyddai cael strategaeth gydlynol hirdymor i gefnogi corff o waith sy'n cynnig hyfforddiant, gwybodaeth a chyllid bychan i arbrofi â syniadau newydd, a hyn wedi'i ategu gan gynllun gan arbenigwyr yn y maes hwn sydd â digon o adnoddau i gyflawni'r gwaith a datblygu adnodd incwm cymysg."

## Casgliadau

Awgryma'r ymatebion i'r maes hwn yn yr adolygiad ddyhead i gael dull hynod gyfannol neu holistig o ddatblygu artistiaid, fel y dangosir drwy'r gymhariaeth â 'choeden', sef darparu cyfleoedd i berfformwyr sydd ar ddechrau eu gyrfa i gael eu mentora ac ar yr un pryd, cynnig tiwtora a mynediad i gymunedau lleol at y perfformwyr hynny. Mae ymateb clir hefyd o blaid

artistiaid ifanc neu rai sydd ar ddechrau eu gyrfa sydd angen mwy o gyfleoedd i berfformio, drwy gefnogi eraill mewn perfformiadau, bod ar lwyfannau llai mewn gwyliau, mewn clybiau gwerin lleol, ac ati, gyda chefnogaeth artistiaid mwy profiadol, cefnogaeth sefydliadol, a chyllid i gyflwynwyr allu 'cymryd y risg'. Soniodd ymatebwyr hefyd am yr angen i gael prosiectau datblygu sy'n targedu cyfleoedd i artistiaid sydd ar ddechrau eu gyrfa ac sy'n datblygu er mwyn iddynt gael mynediad at gefnogaeth benodol, mentora a datblygu sgiliau.

- Ysgogi sefydlu llwybrau wedi'u targedu i ddatblygu artistiaid ar draws ystod o anghenion gyrfa a'r rhain wedi'u rhedeg gan y sector cerddoriaeth a cherddorion traddodiadol.
- Datblygu rhaglen barhaus o fentora a chefnogaeth, rhwydweithio a gweithgareddau cefnogi cyfoedion.
- Targedu cerddoriaeth draddodiadol nad oes ganddi gynrychiolaeth ddigonol o gymunedau lleiafrifol.
- Parhau i weithio gyda sefydliadau blaenllaw fel Celfyddydau Rhyngwladol Cymru i nodi cyfleoedd preswyl priodol i'n cerddorion y tu allan i Gymru.

# Cymorth a Datblygiad Proffesiynol

Canolbwyntiai adran hon yr arolwg ar anghenion cerddorion cerdd draddodiadol lled-broffesiynol a phroffesiynol, o ran datblygu eu crefft a'u gyrfaoedd. Yn ddiddorol, yn yr arolwg ac yn y gweithdai, dyma'r maes a gafodd y lleiaf o sylw. Nid yw hynny'n golygu nad yw'n bwysig i'r sector, dim ond bod ffocws y sector ar hyn o bryd yn gryf iawn ar lawr gwlad, addysg a datblygiad cynnar. Mae'n amlwg, fodd bynnag, bod cynnal iechyd a ffyniant ein cerddorion proffesiynol, a gwelededd ein cerddoriaeth draddodiadol drwyddynt, yn hanfodol bwysig ar gyfer iechyd ecosystem cerddoriaeth draddodiadol ac na ddylid ei anwybyddu.

Y mesur pwysicaf yn ôl bron i 60% o'r ymatebwyr oedd "**Rhagor o gyfleoedd i arddangos cerddoriaeth, yng Nghymru a thu hwnt**". Y maes pwysicaf wedyn i'w ddatblygu oedd darparu cyllid, gyda 51.5% o'r ymatebwyr yn dewis "**Cefnogaeth ariannol ar gyfer recordio cerddoriaeth, teithio a datblygu gyrfa**".

Dyma'r themâu a gododd o'r maes ymholi hwn:

- Mwy o gyfleoedd arddangos fel y manylir uchod.
- Cyllid – fel y disgrifir uchod.
- Cymorth i ddatblygu gyrfaoedd portffolio drwy diwtora a chynnal mwy o weithgarwch datblygu a gweithgareddau ar lawr gwlad.
- Datblygiad proffesiynol, hyfforddiant a mentora.
- Yr angen am seilwaith cymorth: labeli, rheolwyr, hyrwyddwyr, asiantiaid.
- Mwy o gydweithio creadigol yng Nghymru, ar draws genres, diwylliannau a rhaglenni rhyngwladol.

Pan ofynnwyd iddynt "Pa un peth fyddech chi'n ei wneud i gefnogi ffyniant cerddorion traddodiadol proffesiynol yng Nghymru?", rhoddodd yr ymatebwyr amrywiaeth o sylwadau a syniadau, gan gynnwys:

- "Datblygu seilwaith o reolwyr, asiantiaid bwcio, marchnatwyr digidol a labeli sy'n angerddol am y sector ac nad ydynt yn gerddorion eu hunain, ond yn weithwyr proffesiynol yn eu maes."
- "Hyfforddiant i hyrwyddwyr (hyfforddiant tiwtoriaid Cerdd Gymunedol Cymru) i godi safonau a hyfforddiant ar sut i gynnal gweithdai yn y sector, hyfforddiant a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau a mudiadau er enghraifft, neu grwpiau cymunedol, ymgysylltu a rheoli prosiectau."
- "Datblygu teithiau cenedlaethol i fynd â cherddoriaeth werin o amgylch Cymru drwy'r Mentrau Iaith. Digon o gyllid e.e. Noson Allan, i gynnal nosweithiau 'agos-atoch' mewn lleoliadau anghysbell yn ogystal â'r lleoliadau mwy adnabyddus."
- "Gweithio gyda sectorau diwylliant/twristiaeth/ysgolion i wneud cerddoriaeth a chanu gwerin Cymru yn weladwy'n ddiwylliannol yn yr un modd ag y gwnaed yn Iwerddon a'r Alban. Ei gysylltu â naratif ehangach am Gymru."

## Casgliadau

Mae cefnogaeth gref i roi cyfleoedd i berfformwyr arddangos eu doniau yn y DU ac yn rhyngwladol, yn ogystal ag i gyllid i alluogi artistiaid i recordio a theithio, gydag angen am fwy o gefnogaeth i'r diwydiant, yn enwedig rheolwyr, asiantiaid a hyrwyddwyr. Mae llawer o'r rhain yn broblemau sy'n berthnasol ar draws y diwydiant cerddoriaeth cyfan yng Nghymru. Fodd bynnag, wrth edrych ar y sector cerddoriaeth draddodiadol yn Lloegr, yr Alban ac Iwerddon, mae'n amlwg bod ystod eang o strwythurau cymorth i'r diwydiant cerddoriaeth yn bodoli yno sydd yn absennol gan mwyaf yng Nghymru. Efallai y bydd angen i hyn fod yn faes gwaith wedi'i dargedu, mewn partneriaeth â Cymru Greadigol, i ddatblygu cymorth priodol i'r diwydiant cerddoriaeth ar gyfer y sector.

Byddai'r sector lled-broffesiynol a phroffesiynol hefyd yn elwa o'r mathau o gyfleoedd hyfforddi a mentora a nodwyd uchod o dan 'Datblygu Cerddorion', ac mae synergeddau amlwg i'w datblygu yma. Mae gan CCC rôl hefyd yn eirioli ar ran y sector, gan weithio mewn partneriaeth â Cymru Greadigol i ddatblygu strwythurau cymorth i'r diwydiant a chyfleoedd ariannu i artistiaid. Mae cyfeirio artistiaid at ffynonellau cymorth ariannu eraill yn y diwydiant fel Sefydliad PRS eisoes wedi'i gynnwys ar wefan CCC.

- Ysgogi sefydlu llwybrau wedi'u targedu i ddatblygu artistiaid ar draws ystod o anghenion gyrfa a'r rhain wedi'u rhedeg gan y sector cerddoriaeth a cherddorion traddodiadol.
- Datblygu rhaglen barhaus o fentora a chefnogaeth, rhwydweithio a gweithgareddau cefnogi cyfoedion.
- Targedu cerddoriaeth draddodiadol nad oes ganddi gynrychiolaeth ddigonol o gymunedau lleiafrifol ledled Cymru.
- Mae gwybodaeth am gyllid a chyfleoedd gyrfa wedi'u gwasgaru ar draws ffynonellau gwybodaeth. Dylid cydweithio i gywain a lledaenu'r wybodaeth hon a llwybrau cyfeirio ati.

# Rhwydweithiau a Chyfathrebu

Canolbwyntiai rhan hon yr arolwg ar feysydd fel adnoddau, gwybodaeth, arbenigedd, cyllid a chyfleoedd ac mae hefyd yn taflu goleuni ar rai o'r heriau strwythurol yn y sector. Ymhle y ceir y sgyrsiau a'r dadleuon ynghylch datblygiad cerddoriaeth draddodiadol yng Nghymru? Sut y gellid casglu, cyflwyno a rhannu gwybodaeth yn well?

Pan ofynnwyd "pa mor hawdd yw hi ar hyn o bryd i gael mynediad at wybodaeth am y sîn gerddoriaeth draddodiadol yng Nghymru? (Archifau Cerddoriaeth)", dim ond 5.4% o'r ymatebwyr a ddywedodd ei bod hi'n RHWYDD tra bod 50% wedi dweud "**mae angen i bobl fod â rhywfaint o wybodaeth eisoes**".

Ar draws yr holl gwestiynau ynghylch cael gafael ar wahanol fathau o wybodaeth, "**mae angen i bobl fod â rhywfaint o wybodaeth eisoes**" oedd yr ateb a ddewiswyd amlaf. 'RHWYDD' oedd yr ateb a ddewiswyd lleiaf.

Mae amrywiaeth eang o sefydliadau, mudiadau a chymdeithasau yn y sector cerddoriaeth draddodiadol yng Nghymru, ond mae ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn teimlo bod gwybodaeth ar wasgar ac yn brin o strwythur cydlynol, rhwydd cael gafael arno. Cafwyd llawer o sylwadau yn yr arolwg am yr angen am ganolbwynt canolog i wybodaeth, porth cerddoriaeth draddodiadol, siop un stop ar gyfer gwybodaeth, dolenni ar gyfer gweithgareddau, archifau, ac ati, a chyllid i gefnogi datblygiad presenoldeb o'r fath ar-lein.

Gan mai Trac Cymru yw'r prif fudiad ar gyfer datblygu cerddoriaeth werin yng Nghymru, cafodd ei grybwyll yn amlach yn yr arolwg ar-lein na mudiadau a sefydliadau eraill, o ran gwybodaeth a gweithgareddau. Gan amlaf, cyfeiriai'r ymatebwyr at y mudiad a'i waith mewn ffordd gadarnhaol, fodd bynnag, mewn trafodaethau un-i-un gydag unigolion a sefydliadau allweddol, roedd y darlun yn llawer mwy cymysg, gan dynnu sylw at ddiffyg arweinyddiaeth strategol yn y sector.

Pan ofynnwyd "Beth yw'r un peth y gallai Cyngor Celfyddydau Cymru ei wneud er mwyn i'w gefnogaeth i'r sector cerddoriaeth draddodiadol yng Nghymru fod yn fwy effeithiol?" cafwyd amrywiaeth o awgrymiadau gan yr ymatebwyr:

- "Systemau gwybodaeth gwell – ei gwneud hi'n haws cael gafael ar wybodaeth am gigs, cyfleoedd hyfforddi, cyllid."
- "Creu mwy o gyfleoedd cyllido ar gyfer prosiectau cerddoriaeth draddodiadol yn benodol. Datblygu strategaeth sy'n targedu cynhaliaeth i gerddoriaeth draddodiadol."
- "Mae angen cyllid craidd cyffredinol arnom nad yw wedi'i ymrwymo i brosiectau penodol."
- "Strwythur mwy proffesiynol."
- "...cefnogi cerddorion i recordio a chael eu halbwm cyntaf. Ar hyn o bryd [maen nhw] yn ariannu prosiectau sydd â chanlyniadau perfformio, datblygu cerddoriaeth newydd ond dydyn nhw ddim yn ariannu creu EP sy'n gam cyntaf hanfodol i farchnata eich hun fel cerddor a chreu gyrfa gerddoriaeth gynaliadwy."

Fel rhan o’r adran hon ar y sector, gofynnwyd i bobl hefyd, “Ble mae’r sgyrsiau pwysig am gerddoriaeth draddodiadol yng Nghymru yn digwydd, a phwy sy’n rhan o’r sgyrsiau hynny?” Dywedodd 58% o’r ymatebwyr mai mewn **Gwyliau a Digwyddiadau** y mae’r rhan fwyaf o’r sgyrsiau hyn yn digwydd, ac yna **Sefydliadau/Mudiadau Cerdd** (48%).

## Casgliadau

Nid oedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn ei chael hi’n hawdd cael mynediad at wahanol fathau o wybodaeth. Mae hyn yn codi mater pwysig a dybryd ynghylch mynediad at ein repertoire cerddoriaeth draddodiadol, rhestrau digwyddiadau perfformio, sesiynau, cysylltiadau allweddol yn y sector, ffynonellau ariannu a phobl sy’n hyrwyddo’r traddodiad. Thema gref oedd yr awydd am ‘siop un stop’ i gael gwybodaeth am gerddoriaeth draddodiadol Cymru, datblygu canolbwynt ar-lein, manylion am sesiynau, gweithgareddau, perfformiadau, ac ati.

Mae’n ddiddorol nodi bod y lleoliadau neu’r digwyddiadau lle mae ymatebwyr yn credu bod y sgyrsiau pwysig am gerddoriaeth draddodiadol yn digwydd (h.y. mewn gwyliau, digwyddiadau, yn y sefydliadau/mudiadau cerdd), yn cyferbynnu â’r lleoliadau neu’r gweithgareddau a nodwyd fel rhai pwysig i gerddoriaeth draddodiadol ffynnu sef gweithgareddau ar lawr gwlad a mannau lleol neu gymunedol. Mae yna ymdeimlad nad yw’r sgyrsiau pwysig yn digwydd lle efallai y dylent ddigwydd, a bod rhywun arall yn gwneud penderfyniadau am y traddodiad. Wedi dweud hynny, nodwyd sesiynau canu yn y gymuned fel mannau llawn trafodaethau. Fodd bynnag, mae rhai ymatebwyr yn teimlo nad oes digon o sgyrsiau’n digwydd y tu allan i’r prif fannau a nodwyd uchod, gan fynegi efallai dyhead i sgyrsiau am gerddoriaeth draddodiadol fod yn fwy cynhwysol ac egalitaraidd.

Mae angen:

- Asesiad o’r asedau presennol yn y sector cerddoriaeth draddodiadol a chynllun strategol yn deillio o hynny yn ymwneud ag arweinyddiaeth, datblygiad a chyllid y sector.
- Meithrin rhwydweithio ledled y sector drwy gynnal fforymau ar-lein yn rheolaidd a chael systemau gwybodaeth gwell.
- Canolbwynt rhwydd ei adnabod ar gyfer Cerddoriaeth Draddodiadol Cymru sy’n dwyn gwybodaeth am y sector ynghyd ac yn cyfeirio defnyddwyr at ble y gellir dod o hyd i wybodaeth, adnoddau a chyllid ychwanegol.

# Datblygu Cynulleidfa

Yn adran olaf yr arolwg, gofynnwyd i'r ymatebwyr flaenoriaethu pedwar cam gweithredu gwahanol a allai ddatblygu cynulleidfa ar gyfer cerddoriaeth draddodiadol yng Nghymru. Dyma'r pedwar cam gweithredu:

- Marchnata: safleoli cerddoriaeth draddodiadol yng Nghymru iddi barhau i fod yn driw i'w gwreiddiau ar yr un pryd â siarad o'r newydd â chynulleidfaoedd cyfoes a materion y byd sydd ohoni.
- Annog a chefnogi cyfleoedd i 'roi cynnig arni': gweithdai cymunedol/gŵyl i ddatblygu ymgysylltiad â'r rhai na fyddent efallai byth wedi codi offeryn gwerin.
- Cefnogaeth i berfformiadau neu sesiynau cerddoriaeth rheolaidd mewn lleoliadau cymunedol ynghyd â chasglu data ar gynulleidfaoedd a rhannu hwnnw gydag artistiaid a lleoliadau.
- Gwell rhannu ar ddata: trefnu a lledaenu demograffeg a gwybodaeth am gynulleidfaoedd i helpu i farchnata a thargedu grwpiau darpar gynulleidfa cerddoriaeth draddodiadol ar y cyfryngau cymdeithasol.

"**Annog a chefnogi cyfleoedd 'rhoi cynnig arni'**" gafodd y ganran uchaf fel 'blaenoriaeth gyntaf' gan i 48% o'r ymatebwyr ddewis y cam gweithredu hwn. Mae hyn yn adlewyrchu'r ymateb cyffredinol i'r ymgynghoriad ynghylch yr angen i ganolbwyntio mwy ar ymgysylltu cymunedol, annog cyfranogiad fel ffordd arall o ennyn diddordeb a chreu cynulleidfa, ynghyd â gweithgarwch ar lawr gwlad.

Y cam gweithredu uchaf wedyn a ddewiswyd oedd "**Cefnogaeth ar gyfer perfformiadau neu sesiynau cerddoriaeth rheolaidd**" a 47.5% o'r ymatebwyr yn dewis y cam hwn fel 'ail flaenoriaeth'. Unwaith eto, mae hyn yn cadarnhau ffocws ar yr angen i gefnogi lleoliadau, sesiynau, hyrwyddwyr, ac ati yn y gymuned.

"**Rhannu gwell ar ddata**" gafodd y ganran uchaf fel y 'drydedd flaenoriaeth' gyda 54% o'r ymatebwyr yn dewis y cam gweithredu hwn, gan adlewyrchu'r awydd i gael gwybodaeth, rhestrau, data am gynulleidfaoedd ac ati mewn man mwy canolog.

Pan ofynnwyd "**Pa un peth fyddech chi'n ei wneud i gynyddu cynulleidfa cerddoriaeth draddodiadol Cymru?**" canolbwyntiodd nifer fawr o ymatebion ar yr angen i gael proffil uwch ar y cyfryngau prif ffrwd, ar y teledu a'r radio (rhaglenni pwrpasol a cherddoriaeth draddodiadol yn rhan o ddarlledu prif ffrwd), gyda BBC Alba wedi'i enwi yn enghraifft. Soniodd rhai am yr angen am fwy o ymgysylltiad mewn addysg a chymryd rhan ar lefel cymuned. Dywedodd nifer o ymatebwyr hefyd fod angen cael rhagor o raglenni prif ffrwd am gerddoriaeth draddodiadol mewn gwyliau a lleoliadau mawr, lle nad yw'n cael ei gweld yn aml iawn. Mae rhai'n gweld yr angen am fwy o weithwyr proffesiynol yn y diwydiant i gefnogi artistiaid – rheolwyr, asiantiaid a hyrwyddwyr – i fod yn rhywbeth hanfodol i ddatblygu cynulleidfaoedd. Hoffai rhai ymatebwyr weld mwy o ddatblygu ar wyliau bychain sy'n cynnig cyfleoedd i artistiaid a chynulleidfaoedd ymgysylltu ar lefel fwy lleol.

Yn olaf, rhoddodd yr arolwg gyfle i ymatebwyr wneud sylwadau ar y syniad o gerddoriaeth draddodiadol fel ecosystem. Dyma ddetholiad o rai o'r sylwadau a gafwyd:

- "Peth prin iawn yw gweld ystod mor eang o bobl â diddordeb mewn agwedd ar y celfyddydau. Ond trwy ddysgu a pherfformio alawon gwerin, dawnsfeydd a chaneuon gyda'i gilydd mae pensiynwyr, plant bach a phob oed rhyngddynt yn cyfathrebu mewn ffyrdd unigryw. Mae'r 'oen yn dysgu'r ddafad' ar adegau hefyd."
- "Mae sector cerddoriaeth draddodiadol Cymru yn ecosystem ac ynddi lawer o gerddorion, cymdeithasau, traddodiadau, diwylliannau, ieithoedd, arbenigwyr, aelodau cynulleidfa, lleoliadau, cyfleoedd a syniadau. – Cytuno 100%. Trysor cymuned ydyw ac mae ffresni'n gysylltiedig ag ef, ond rhaid sicrhau y gall cerddorion ennill bywoliaeth deg drwy'r diwydiant os yw am ffynnu a chael ei drosglwyddo mewn ffordd gyfoes ac apelgar i gynulleidfa a chenedlaethau'r dyfodol."
- "Creu hybiau neu ganolfannau ledled Cymru i alluogi dathlu, datblygu a chefnogi celfyddydau gwerin (gan gynnwys cerddoriaeth yn unig) a gallai'r rhain fod yn ffocws i gymunedau gyflawni hyn [ecosystem]. Byddai nid yn unig yn darparu lleoliadau ar gyfer cefnogi'r celfyddydau, ond hefyd yn diwallu'r anghenion a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol trwy gefnogi iaith a diwylliant ffyniannus, ynghyd â mynd i'r afael â meysydd lles."
- "Mae dathlu pob traddodiad cerddoriaeth draddodiadol yng Nghymru yn allweddol i feithrin cydlyniant cymunedol, a chwalu rhwystrau diwylliannol drwy'r profiad dynol hwn sydd yn cael ei rannu ac sydd mor hynafol – sef gwerthfawrogi a chreu cerddoriaeth."

## Casgliadau

Yn yr adran hon mae'r ymatebion yn adlewyrchu'r pwyslais ar y datblygu ar lawr gwlad a gafwyd yn yr ymatebion cyffredinol i'r arolwg, a blaenoriaeth uchel ar gyfer datblygu cynulleidfaoedd oedd cyfleoedd i 'roi cynnig arni', gweithdai cymunedol a gwyliau er mwyn datblygu ymgysylltiad. Mae'r awydd am gefnogaeth i gael rhagor o 'berfformiadau neu sesiynau cerddoriaeth rheolaidd' hefyd yn adlewyrchu'r ffocws ar gefnogaeth i leoliadau, sesiynau a hyrwyddwyr cymunedol. Mae'r ddwy 'flaenoriaeth' hyn yn dangos pwysigrwydd y cydgysylltiad rhwng y gymuned ac elfennau proffesiynol cerddoriaeth draddodiadol. Blaenoriaeth allweddol arall hefyd yw mynediad gwell at wybodaeth am ddigwyddiadau, gigs, sesiynau, ac ati, gyda llawer o ymatebwyr yn galw am siop un stop ar gyfer gwybodaeth.

Mae llawer o ymatebwyr yn gweld yr angen i gynyddu proffil cerddoriaeth draddodiadol ar y cyfryngau ac ar raglenni radio a theledu Cymru. Gwelir dyhead i wneud cerddoriaeth draddodiadol yn fwy 'prif ffrwd' a'i normaleiddio mewn rhaglenni cerddoriaeth. Mae hyn hefyd yn wir am y rhaglennu byw mewn gwyliau a lleoliadau, lle gwelir cyfle i raglennu artistiaid cerddoriaeth draddodiadol ochr yn ochr â genres cerddoriaeth eraill.

Mae angen amlwg am y canlynol:

- Cysylltiadau strategol â'r sectorau cyflwyno a'r cyfryngau fel rhan o ddatblygu'r sector a dull seiliedig ar asedau.

- Arbrofion yn seiliedig ar brosiectau e.e. teithio, ymgysylltu (trwy grantiau gan y Loteri Genedlaethol a Noson Allan, ac ati.)

# Prif Ganfyddiadau o'r Cyfweliadau Un-i-un

Dewiswyd yr unigolion i'w cyfweld ar gyfer y cyfweliadau manwl hyn gyda'r Comisiynydd ar sail y ffaith y gallant gynnig ystod eang o safbwyntiau ar draws y sector a'u bod yn gallu rhoi mewnwelediadau gwerthfawr ac/neu gynrychioli partneriaid allweddol neu gyd-ddarparwyr yn benodol yn y meysydd gweithgarwch sy'n cael sylw gan yr adolygiad. Roedd rhai trafodaethau hefyd yn cynnwys rhoi prawf ar syniadau a gweithgareddau posibl a amlinellwyd yn yr adran argymhellion, a mireinio arnynt ymhellach. Er bod y trafodaethau yn fras wedi dilyn fformat tebyg i'r rheiny a gynhaliwyd yn y gweithdai adolygu, eto yn aml datblygai'r sgyrsiau hyn eu hynt eu hunain. Mae llawer o'u cynnwys wedi bwydo i mewn ac wedi rhoi manylion ychwanegol i'r argymhellion. Ceir trosolwg o'r ymchwil hwn yn Atodiad 5. Roedd rhai themâu a godai'n aml a'r themâu hynny'n berthnasol i gasgliadau a naratif yr adolygiad:

- Mae cyfoeth o wybodaeth a phrofiad na fanteisir arnynt yn y sector hwn, a'r rheiny'n barod i gefnogi a gyrru'r sector cerddoriaeth draddodiadol yng Nghymru ymlaen. Mae angen ennyn eu diddordeb nhw i ymgysylltu. Hefyd, ceir ymdeimlad, ar hyn o bryd, mai'r un grwpiau ac unigolion sy'n tueddu i ymgysylltu dro ar ôl tro. 'Taenwch y rhwyd yn lletach!'
- Mae unigolion talentog yn gwneud i bethau ddigwydd ar raddfa fach, mewn lleoliadau penodol, a gallai'r rhain ffynnu drwy gael rhywfaint o fentora a chefnogaeth iddynt a gallant chwarae mwy o ran wrth ddatblygu'r sector yn strategol.
- Mae llawer o ewyllys da tuag at gerddoriaeth draddodiadol ymhlith sefydliadau partner ond mae rhwystredigaeth ynghylch diffyg ymgysylltiad, gweithredu, arweinyddiaeth ac ymateb gan Trac i fentrau ac ymyriadau strategol allweddol.
- Mae parodrwydd mawr i bartneru a ffurfio consortia ar gyfer cynigion ariannu ar y cyd, mentrau a phrosiectau partneriaeth, a'r rhan fwyaf o'r rhain yn gofyn am gasglu potiau bychain o fuddsoddiadau er mwyn cynnal gweithgaredd.

### Casgliadau

- Mae angen mwy o gydweithio ar draws y sector a chynnal mentrau ar y cyd.
- Mae angen datrys y diffyg arweinyddiaeth gydlynol yn y sector.
- Mae angen ymgysylltu â chronfa dalent ehangach wrth ddatblygu a chynnal gwasanaethau a phrosiectau i'r sector.

# Sefydliadau a Mudiadau sy'n Cefnogi'r Sector

Dyma'r mudiadau, cymdeithasau a sefydliadau yng Nghymru sy'n cefnogi cerddoriaeth draddodiadol, yn nhrefn yr wyddor: Clera, Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, Cymdeithas Cerdd Dant, Cymdeithas Ddawns Werin Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Mentrau Iaith, Trac

Cymru, Tŷ Cerdd ac Urdd Gobaith Cymru. Ariennir eu gweithgarwch gan fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, aelodaeth a gwerthu tocynnau.

Aeth yr adolygiad ati i ddadansoddi 16 o fodelau rhyngwladol ac mae wedi dewis tri model sy'n gweithredu ar raddfa sy'n debygol o fod yn gyraeddadwy yng Nghymru. Mae dau yn yr Alban ac un yng Ngwlad Belg. Y sefydliadau hyn yw Fèis Rois, TRACS a VI.BE.

Mae ffocws gweithgarwch y sefydliadau hyn yn perthyn i dri chategori, fel y dangosir yn yr ymatebion i'r adolygiad:

- Cadw'r traddodiad yn fyw drwy ei drosglwyddo i eraill.
- Datblygu rhagoriaeth broffesiynol.
- Hyrwyddo'r buddion ar gyfer cymdeithas iach, gan fod yn fuddiol ac yn werthfawr ynddo'i hun.

# Dadansoddi Mudiadau a Modelau Tebyg

Y tri sefydliad a ddadansoddir yn fanwl yw: Fèis Rois, Vi.BE a TRACS. Maent wedi'u dewis oherwydd eu bod yn enghreifftiau o arfer da, maent yn adlewyrchu poblogaethau penodol sy'n cael eu hadlewyrchu yng Nghymru ac yn cyd-fynd yn dda iawn â'r themâu a gododd o'r dystiolaeth.

## Fèis Rois

https://feisrois.org/

Mawrth 2024: £830,000. £450,000 gan Creative Scotland, £100,000 o incwm a enillwyd, £175,000 drwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth (SLA) a mwy na £100,000 o incwm grant cymysg.

Mae Fèis Rois yn cefnogi'r diwylliant Gàidheleg byw a geir yng ngogledd a gorllewin yr Alban, gan weithio drwy gerddoriaeth draddodiadol. Drwy roi cyfleoedd i gerddorion ifanc ddatblygu eu sgiliau a dysgu gan weithwyr proffesiynol, mae wedi cynyddu nifer y cerddorion ifanc sy'n chwilio am yrfa fel cerddorion proffesiynol sy'n canu yn y Gàidhlig ac wedi normaleiddio defnyddio'r iaith fel cyfrwng ar gyfer gwaith newydd. Mae eu gwaith yn cyd-fynd yn agos â llawer o'r themâu sy'n dod i'r amlwg yn yr adolygiad. Mae maint eu gwaith yn cyd-fynd yn agos â maint mudiadau datblygu allweddol yng Nghymru ac yn cynnig darlun o'r hyn y gallai Cymru ei gyflawni ar y lefel hon.

Maent yn pontio ar draws cenedlaethau; yn cynnig cefnogaeth gyfranogol a phroffesiynol; yn gweithio'n lleol ac yn rhyngwladol; yn datblygu cyfleoedd arddangos a digwyddiadau lleol; yn comisiynu gweithiau enghreifftiol ac yn cyfrannu at brosiectau cenedlaethol ar raddfa fawr. Maent yn gweithio gyda sefydliadau a mudiadau eraill sy'n datblygu'r byd gwerin yn yr Alban – yn enwedig TRACS a Celtic Connections.

Mae'r berthynas ariannu sefydlog sydd ganddynt yn rhoi modd iddynt ddatblygu economi gymysg sy'n cefnogi'r sefydliad a'r traddodiad ill dau, trwy gymorth grant, nawdd ac incwm a enillir.

## TRACS

Llais Cyfunol yr Alban dros Gelfyddydau a Diwylliant Traddodiadol

https://tracscotland.org/about-us/

Cefnogir TRACS gan Gyngor Dinas Caeredin a Creative Scotland. Adroddwyd eu trosiant yn 2024 i fod yn £765,000.

Mae TRACS yn sefydliad cynrychioliadol a'i brif swyddogaeth yw gwasanaethu buddiannau'r traddodiad (traddodiadau cynhenid yr Alban a thraddodiadau lleiafrifoedd sy'n byw yn y wlad). Maent yn gweithio'n swyddogol mewn tair iaith: Gàidhlig, Saesneg a Sgoteg, ond maent yn cydnabod yr angen i weithio gydag ieithoedd eraill, pan fo capasiti a galw yn caniatáu hynny.

Cawsant eu cydnabod yn ffurfiol gan UNESCO i fod y corff cynrychioliadol ar gyfer Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol draddodiadol yr Alban, ac maent yn cynnal cymysgedd o hyfforddiant, dysgu a digwyddiadau cyhoeddus a gwasanaeth newyddion yn ogystal â chyhoeddi'n helaeth ar fuddion cymdeithasol cerddoriaeth draddodiadol.

## VI.BE

https://vi.be/

Mae VI.BE yn gweithredu ar draws pob genre cerddoriaeth ac yn dwyn ynghyd arbenigedd a menter mewn un corff strategol gan fod â staff a bwrdd mawr, ei safle ei hun a digon o adnoddau i allu cynllunio'n strategol.

Mae eu gwefan ddeinamig, cylchlythyrau a chyhoeddiadau wedi'u hanelu at ymgysylltu â chefnogwyr a chynulleidfaoedd cerddoriaeth yn ogystal â cherddorion a busnesau cerddoriaeth yn Fflandrys a Gwlad Belg. Mae ganddyn nhw raglen ryngwladol uchelgeisiol sy'n 'allforio' i farchnadoedd byd-eang.

Mae llawer o swyddogaethau VI.BE sy'n debyg yng Nghymru, yn enwedig FOCUS Wales, Trac Cymru a Tŷ Cerdd o ran cylch gorchwyl. Mae rhywfaint o'u gweithgarwch yn dod o fewn cylch gwaith CCC/ Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a Cymru Greadigol a rhywfaint yng nghylch mudiadau eraill megis Musicians' Union, Help Musicians, Youth Music, PRS for Music a'r Wobr Gerddoriaeth Gymreig.

- Mae Atodiad 3 yn ymchwilio i sefydliadau/mudiadau sydd wedi'u llunio'n ffurfiol i roi cymorth ac mae Atodiad 4 yn archwilio modelau cydweithredu a chydweithio.

# Y Cyllid ar hyn o bryd i'r Celfyddydau yn y DU ac Iwerddon

Er bod cynghorau celfyddydau'r Deyrnas Unedig ac Iwerddon oll yn cefnogi cerddoriaeth draddodiadol mewn gwahanol ffyrdd, nid oes consensws clir rhyngddynt ynghylch beth sy'n cyfrif i fod yn ddisgrifiad pendant o gerddoriaeth draddodiadol, er enghraifft, mae Creative Scotland a Chyngor Celfyddydau Iwerddon yn defnyddio'r term celfyddydau traddodiadol, ac yn yr Alban mae ganddynt gategorïau pellach ar gyfer yr Wyddeleg a'r Aeleg sydd â chynnyrch sylweddol o gerddoriaeth draddodiadol.

Felly, er nad oes cymhariaeth glir y gellir ei throsi ar gyfer Cymru, eto wrth i ni fynd ati y gorau y gallwn i gyfrifo buddsoddiad cynghorau celfyddydau mewn cerddoriaeth draddodiadol drwy ddefnyddio'r ffigurau a'r rhesymeg a ddarparwyd ganddynt, gwelir gwahaniaeth sylweddol yn lefelau'r buddsoddi. Mae'r cynghorau celfyddydau hyn yn rhoi cyfartaledd o 2.9% o'u dosbarthiad cyffredinol tuag at gerddoriaeth draddodiadol, gyda Creative Scotland yn rhoi'r gyfran uchaf o tua 4.8% (4.4 o gyfanswm o 91 miliwn) yn 2024. Yr hyn sy'n amlwg yw bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn cyfrannu llawer llai, sef rhywbeth fel 0.66% (£400,000 o'u cyfanswm o 54,000,000). Hyd yn oed gan ganiatáu am amrywiadau yn y cyfrifiad, mae'r gwahaniaeth yn sylweddol. Mae llawer o waith i'w wneud i ddod o hyd i gymariaethau ystadegol cadarn, a gallai gwneud hynny fod yn fanteisiol i ddeall y gwahaniaethau yng nghyd-destun ariannu cerddoriaeth draddodiadol ar draws y rhanbarthau.

# Casgliadau

Thema gyson ledled yr arolwg a'r cyfarfodydd ymgynghori oedd yr angen a nodwyd am gyllid ychwanegol ar gyfer cerddoriaeth draddodiadol yng Nghymru. Isod, crynhoir meysydd clir yr anghenion a gododd o'r ymchwil hwn, ac a ddangosir uchod. Mae argymhellion y Comisiwn yn ymateb i'r meysydd hyn.

## 1. Llawr gwlad

- Swyddi datblygu rhanbarthol strategol wedi'u cefnogi gan gorff canolog.
- Cronfa Loteri wedi'i chlustnodi ar gyfer grantiau bychain tuag at gerddoriaeth draddodiadol.
- Cefnogaeth i rwydwaith strategol o randdeiliaid (Mentrau Iaith, Urdd, mudiadau cerdd, ac ati) i feithrin gweithgareddau a chysylltiadau cymunedol, rhanbarthol a llawr gwlad i ennyn gweithgarwch ac ymgysylltiad â cherdd draddodiadol.
- Ysgogi sefydlu rhaglen ar gyfer gweithgarwch dysgu a chymryd rhan wedi'u hysbrydoli gan fentrau llwyddiannus (e.e. Fèis Rois) i ymgysylltu â phobl ifanc trwy sesiynau anffurfiol a jamiau.
- Targedu cerddoriaeth draddodiadol heb gynrychiolaeth ddigonol o gymunedau lleiafrifol ledled Cymru.

## 2. Addysg

- Sefydlu partneriaeth strategol â Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol Cymru i integreiddio cynnwys cerddoriaeth draddodiadol i raglenni presennol, hyfforddiant athrawon, adnoddau myfyrwyr a'r offer mewn ystafelloedd dosbarth.
- Codeiddio cerddoriaeth draddodiadol Cymru i gadw a lledaenu ei phriodoleddau, gan ddarparu adnoddau addysgu wedi'u graddio i hwyluso dysgu. Partneriaethau rhwng cyrff addysg a'r sector cerddoriaeth.
- Partneriaeth strategol ag addysg uwch, yn gapsiwl maes llafur i ddechrau arni ac, yn ddiweddarach, yn llwybr gradd penodol.

## 3. Datblygu cerddorion a Datblygiad proffesiynol

- Ysgogi sefydlu llwybrau wedi'u targedu i ddatblygu artistiaid ar draws ystod o anghenion gyrfa a rhaglen barhaus o fentora a chefnogaeth, a'r rhain wedi'u cynnal gan y sector cerddoriaeth a cherddorion traddodiadol.
- Gweithio gyda phartneriaid i ysgogi a chefnogi datblygu cefnogaeth i artistiaid proffesiynol: hyrwyddwyr, asiantau, rheolwyr, labeli.
- Targedu cerddoriaeth draddodiadol nad oes ganddi gynrychiolaeth ddigonol o gymunedau lleiafrifol ledled Cymru.

## 4. Rhwydweithiau a chyfathrebu

- Angen arweinyddiaeth strategol yn y sector a chynllun strategol yn ymwneud ag arweinyddiaeth, datblygiad a chyllid y sector.
- Meithrin rhwydweithio ledled y sector drwy gynnal fforymau ar-lein yn rheolaidd a chael systemau gwybodaeth gwell.
- Angen ennyn diddordeb cronfa dalent ehangach wrth ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau a phrosiectau i'r sector. Gallai hyn hefyd gynnwys rhywfaint o hyfforddiant / cefnogaeth / mentora.
- Angen asesu asedau presennol yn y sector cerddoriaeth draddodiadol a chael gwybodaeth ac atgyfeirio mwy cydlynol i'r sector a'r gynulleidfa.

## 5. Datblygu cynulleidfa

- Perthynas strategol â'r sector cyflwyno fel rhan o ddatblygu'r sector a'r dull sy'n seiliedig ar asedau.
- Arbrofion yn seiliedig ar brosiectau e.e. teithio, ymgysylltu (trwy'r Loteri Genedlaethol a Noson Allan, ac ati).
- Eiriolaeth dros gerddoriaeth fwy traddodiadol yn y cyfryngau prif ffrwd.

# Atodiadau

## Atodiad 1

### Mynychwyr y cyfarfodydd Zoom cyntaf, 24 a 29 Medi 2024

- Cyfarfod cyntaf:
  Dilwyn Davies, Ywain Myfyr, Nia Daniel, Joe Buirski, Lis McClean, Alun Llwyd, Stephen Rees, Yasmine Latkowski
- Yr ail gyfarfod:
  Patrick Rimes, David Ball, Elin Ellis, Huw Williams, Jordan Price Williams, Angharad Jenkins, Owen Shiers

### Sgyrsiau un-i-un gyda'r Comisiynydd

Roedd y rhain yn cynnwys Sioned Webb (cynheiliad traddodiad), Patrick Rimes (cynheiliad traddodiad), Angharad Jenkins (cynheiliad traddodiad), Jordan Price Williams (cynheiliad traddodiad), Sioned Edwards (Eisteddfod), Yasmine Latkowski (cyfansoddwr/perfformiwr), Meinir Llwyd (Canolfan Gerdd William Mathias), Mari Pritchard (Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol Cymru), Llio Maddocks (Urdd), Einir Sion (Ysgogwr y Gymraeg CCC / Llais y Lle) a Spike Griffiths (Beacons Cymru).

I gael trosolwg o'r trafodaethau, gweler Atodiad 5

## Atodiad 2

Tabl crynhoi ymatebion yr arolwg

## Atodiad 3

### Sefydliadau a mudiadau sy'n cefnogi'r sector

Ymchwiliwyd i'r 16 sefydliad/mudiad a restrir isod, ac yna dewiswyd tri i fod yn fodelau defnyddiol ar gyfer datblygu cerddoriaeth draddodiadol yng Nghymru.

- EFDSS
- TRACS
- Fèis Rois
- Hagyomanyak Hansa
- Sibelius Academy
- FAMDT
- Comhaltas Ceoltóirí Éireann
- FolkOrg
- Folk Alliance International
- Matariki Cultural Foundation

- Cutlure Ireland
- Music Finland
- VI.BE
- Catalan Sounds
- Foundation Hiba

## Fèis Rois

https://feisrois.org/

**Datganiad Cenhadaeth**

“Rydym yn galluogi pobl o bob oed i gael mynediad at y celfyddydau traddodiadol a’r iaith Gaeleg, i gymryd rhan ynddynt ac i’w mwynhau trwy raglen amrywiol o weithgareddau yn Ross a Cromarty, ledled yr Alban a thu hwnt.”

**Cefndir**

Mae Fèis Rois yn sefydliad sy’n rhan bwysig o’r mudiad Fèisean yn yr Alban. Mae’r Fèisean (mae Fèis yn golygu gŵyl) yn bennaf yn fudiadau diwylliannol a gododd dros 40 mlynedd yn ôl yng nghymunedau Gàidhlig eu hiaith yng ngogledd a gorllewin yr Alban i hyrwyddo caneuon, cerddoriaeth a dawns draddodiadol yn ardaloedd yr Ucheldiroedd a’r Ynysoedd gan eu bod yn diflannu’n gyflym yno. Nid oes cymariaethau hawdd â Chymru er y gellir dod o hyd i lawer o’u gwerthoedd a’u pryderon yn yr Eisteddfodau, Merched y Wawr, Ffermwyr Ifainc, Trac Cymru, Cymdeithasau Alawon, Cerdd Dant a Dawns Werin Cymru a Chymdeithas yr Iaith, yn ogystal â sefydliadau/mudiadau a ariennir gan y wladwriaeth fel y Mentrau Iaith sy’n defnyddio cymysgedd o weithgareddau i ymgysylltu eu cymunedau lleol ag iaith a diwylliant byw Cymru.

Mudiadau a chymdeithasau llawr gwlad ydyn nhw, yn cael eu rhedeg yn bennaf gan amaturiaid a chyfranogwyr, ac sy’n canolbwyntio ar addysgu diwylliant yr iaith Gàidhlig yn bennaf trwy gyfrwng cân, cerddoriaeth a dawns draddodiadol.

Fèisean nan Gàidheal < https://www.feisean.org/en/ >

Er ei fod yn rhan o fudiad ehangach y Fèisean, mae Fèis Rois yn annibynnol ac yn cynnig hyfforddiant, gweithgareddau diwylliannol, gwersi, gwasanaethau corfforaethol ac addysgol. Mae ganddyn nhw dîm craidd o saith ac maent yn gweithio gyda dros 180 o gerddorion llawrydd bob blwyddyn. Maen nhw’n gweithio’n ddigidol ac yn y cnawd gan gynnig digwyddiadau preswyl, cyflenwi’n uniongyrchol i ysgolion, twristiaeth ddiwylliannol, datblygiad proffesiynol, Gŵyl Lorient, modelau ymgysylltu ehangach a Llwybr Céilí– sef prosiect trochi sy’n hyfforddi cerddorion ifanc â repertoire, perfformio a threfnu a hyrwyddo eu gigs eu hunain.

**Cymorth ariannol**

Ariannir Fèis Rois gan Creative Scotland, ac mae wrthi’n chwilio’n gyson am gyllid craidd, cyllid prosiectau a phartneriaethau eraill yn ogystal â chodi incwm trwy gyflwyno Cytundebau Lefel Gwasanaeth (SLA) yn y system addysg. Maent hefyd yn codi arian trwy gynnig cyrsiau a gwersi.

Ar hyn o bryd, daw'r cyllid craidd gan Creative Scotland, Cyngor yr Ucheldiroedd, Sefydliad Hugh Fraser ac Ymddiriedolaeth MacRobert. Daw cyllid ar gyfer prosiectau ar hyn o bryd gan Bòrd na Gàidhlig, y Cyngor Prydeinig, Fèisean nan Gàidheal, Highland Third Sector Interface (Cronfa Iechyd Meddwl Cymunedau), Live Life Aberdeenshire, Cyngor Dumfries a Galloway a Foulis Farms Ltd.

Eu trosiant hyd at fis Mawrth 2024 oedd £830,000. Roedd hyn yn cynnwys dros £450,000 gan Creative Scotland, £100,000 o incwm a enillwyd, £175,000 drwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth a thros £100,000 o incwm grant arall.

**Gweithgarwch**

Maent yn cyflogi dros 180 o weithwyr proffesiynol llawrydd yn eu gweithgareddau, sy'n cynnwys:

- Cyrsiau preswyl blynyddol i bobl ifanc ac oedolion
- Digwyddiadau preswyl yn yr iaith Gaeleg
- Dosbarthiadau wythnosol
- Hyfforddiant un-i-un ar-lein
- Clybiau cerddoriaeth ar ôl ysgol
- Grwpiau canu hwiangerddi, mamau ifanc a babanod
- Hyfforddiant cerddoriaeth mewn ysgolion
- Sesiynau
- Perfformiadau yn y DU, yr UE, Awstralia a Fietnam
- Perfformiadau comisiwn a gweithiau newydd
- Ymwybyddiaeth amgylcheddol drwy'r iaith
- Llwybr y Céilí - yr ysbrydoliaeth ar gyfer AVANC a TWMPDaith
- Adnoddau addysgol pwrpasol
- Ap
- Tiwtorialau fideo ar-lein
- Gwefan ddwyieithog fawr a gwasanaeth e-newyddion
- Llogi offerynnau
- Cyllid i weithgareddau cymunedol
- Aelod gweithredol o Rwydwaith Gwerin Ewrop (EFN)

## VI.BE

https://vi.be/

**Eu cenhadaeth**

"Mae VI.BE yn cryfhau artistiaid mewn hinsawdd cerddoriaeth iach."

**Cyd-destun**

Ardal yng Ngwlad Belg yw Fflandrys ac yno mae'r brifddinas, Brwsel. Mae'n gartref i gymuned leiafrifol ei hiaith (Fflemineg) yn ogystal â phoblogaeth fawr o fewnfudwyr. Mae cerddoriaeth

draddodiadol Gwlad Belg yn brin yn y wlad. Mae llawer o'i hyrwyddwyr yn gweld eu hunain yn arloeswyr sy'n adfywio rhywbeth coll. Mae hyn yn rhoi rhyddid aruthrol i lawer o gerddorion sy'n gweithio mewn genres gwerin, gwreiddiau a thraddodiadol gan fod agwedd agored a hylifol iawn tuag at yr hyn sy'n "draddodiad". Gwelir hyn mewn gwyliau fel Gooikoorts, Dranbouter a Bruxella sy'n dathlu cerddoriaethau gwerin amrywiol a cherddoriaeth arbrofol ar yr un llwyfan.

**Cefndir**

Mae VI.Be wedi esblygu o Kunstenpunt, trwy Poppunt, a bellach mae'n sefydliad sydd wedi tyfu trwy ddod â'r ystod amrywiol o gyrff cefnogi cerddoriaeth yn Fflandrys ynghyd a defnyddio eu cryfder cyfunol i gynnal tîm strategol o ugain i ddatblygu cerddoriaeth ym Mrwsel. Maent yn cynnig cyngor a hyfforddiant, yn cynnal teithiau, yn cynrychioli cerddoriaeth Fflandrys ledled y byd, yn cynnal gwyliau, gwefannau, cylchgronau a llawer mwy ar draws POB genre cerddoriaeth. Maent yn cynnig cyngor strategol i awdurdodau lleol.

Mae ganddyn nhw 20 o staff a bwrdd o 13 gyda Chynulliad Cyffredinol o 10 (swyddogaeth benodol yng nghyfraith Gwlad Belg) fel rhan o'r llywodraethu. Maent yn cael cefnogaeth ariannol a chefnogaeth arall gan High Five Amplo, y Loteri Genedlaethol, PRG, Sabam for Culture, Studio Brussel a De Standaard.

Mae eu gwefan yn derbyn 500,000 o argraffiadau'r flwyddyn ac mae eu dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol yn amrywio o 16,000 o ddilynwyr Facebook, 11,000 o danysgrifwyr i'w cylchlythyr a 3,000 o danysgrifwyr i'w sianeli YouTube.

Mae eu hadroddiad blynyddol ar gael yma

**Cymorth ariannol**

Nid yw'n hawdd cael hyd i'w cyfrifon ar-lein, fodd bynnag, mae Banc Cenedlaethol Gwlad Belg yn cadw adroddiadau pob cwmni ac roedd mantolen VI.BE ar gyfer 2023 yn dangos trosiant o €790,000. Maent yn derbyn grant craidd gan y Loteri Genedlaethol, nawdd a chefnogaeth strategol gan lywodraeth ranbarthol, a gweddill eu harian yn dod o'u gweithgareddau.

**Gweithgarwch**

- Mynychu neu gynnal 70 o ddigwyddiadau'r flwyddyn, yn lleol ac yn rhyngwladol, ac mae 13 ohonynt yn ddigwyddiadau arddangos/cynhadledd.
- Cynnal gwobrau ar gyfer pob genre.
- Cynnig fforymau rhwydweithio a chyfnewid i ddod â cherddorion ynghyd, hysbysebu swyddi
- Cynnal cymysgedd o gyhoeddiadau ar-lein a phrint sy'n canolbwyntio ar wahanol 'sîn'
- Cynnal digwyddiadau hyfforddi proffesiynol preswyl
- Cynghori ar gyllid a datblygu prosiectau
- Comisiynu a chyhoeddi adroddiadau sy'n sail i'w heiriolaeth ar gyfer y busnes cerddoriaeth
- Cynnal gwefan fawr sy'n manylu ar bopeth maen nhw'n ei wneud ac sydd ag eitemau newyddion a darlleniadau cyflym am ddatblygiadau a thueddiadau
- Cynnal gwasanaeth i aelodau yn unig

Mae'n aelod gweithredol o'r canlynol:

- European Music Exporters Exchange (EMEE)
- ESNS Exchange
- Excite
- Rhwydwaith Jazz Ewrop (EJN)
- Rhwydwaith Gwerin Ewrop (EFN)

## TRACS

Llais Cyfunol yr Alban dros Gelfyddydau a Diwylliant Traddodiadol

https://tracscotland.org/about-us/

### Eu cenhadaeth

"...rydym yn grymuso cymunedau ledled yr Alban, i ddarganfod, datblygu ac ymarfer eu celf a'u treftadaeth draddodiadol unigryw yng nghyd-destun ein bywydau beunyddiol.

Cymuned.

Gwybodaeth.

Ymarfer.

Mynediad.

Eiriolaeth.

Cynaliadwyedd."

Mae TRACS yn rhwydwaith cydweithredol sy'n hyrwyddo traddodiadau cerddoriaeth, cân, adrodd straeon, dawns, crefftau, arferion ac ieithoedd lleol.

### Cyd-destun

Yn hanesyddol mae wedi bod â chyfrifoldebau deddfwriaethol a gweinyddol gwahanol, mae gwahaniaethau sylweddol erioed wedi bod i'r Alban o gymharu â gweddill y DU. Mae gan ei cherddoriaeth draddodiadol fwy o rôl i'w chwarae yn ei bywyd diwylliannol a hyn wedi'i adlewyrchu yn y nifer uwch o glybiau gwerin, gwyliau a digwyddiadau. Mae ei gŵyl flaenllaw, Celtic Connections Glasgow, yn ŵyl fis o hyd o gerddoriaeth werin yr Alban a cherddoriaeth werin gysylltiedig. Mae BBC Alba a chyfryngau eraill yr Alban yn darlledu llawer iawn o gerddoriaeth draddodiadol fel rhan o allbwn prif ffrwd.

Mae hefyd yn werth nodi bod "cerddoriaeth draddodiadol" yn cael ei deall nid yn unig fel cerddoriaeth, dawns a chân ond hefyd fel adrodd straeon, gan gynnwys gweithgareddau yn y Gaidhlig, Saesneg a Sgoteg a chrefftau ac arferion cysylltiedig. Mae gan yr Alban hefyd seilwaith

cryf o weithwyr proffesiynol cerddoriaeth (asiantiaid, hyrwyddwyr, newyddiadurwyr, gwyliau, rheolwyr lleoliadau, ac ati), canolfannau cerddoriaeth cenedlaethol ac amgueddfeydd sy'n canolbwyntio ar ddiwylliant cerddoriaeth draddodiadol yn ogystal â chwrs gradd sydd oll yn gweithredu mewn economi gymysg o fusnes preifat a buddsoddiad cyhoeddus.

Mae Creative Scotland yn buddsoddi'n sylweddol yn ei chelfyddydau traddodiadol. Mae 7% o'r holl ddyfarniadau a 5% o werth ei fuddsoddiad yn mynd i fudiadau a phrosiectau sy'n hunan-adnabod fel rhai "traddodiadol". Os ydym yn cymharu hyn â buddsoddiad CCC o tua 1% mewn cerddoriaeth werin a cherddoriaeth gysylltiedig, ni ddylai fod yn syndod bod cerddoriaeth draddodiadol yn cael ei chefnogi'n dda yn yr Alban. Mae adroddiad perfformiad 22/23 Creative Scotland yn nodi'r canlynol er mwyn cymharu:

https://www.creativescotland.com/binaries/content/assets/creative-scotland/resources-and-publications/publications/annual-reviews/2022-23/2022-23-annual-review-final-pdf.pdf

O gyllideb ddosbarthu o £91 miliwn, gwnaed y dyfarniadau canlynol ganddynt:

97 dyfarniad i gelfyddydau'r iaith Gaeleg, dyfarnwyd £5.3M

68 dyfarniad i gelfyddydau Scoteg, dyfarnwyd £2.3M

122 dyfarniad i gelfyddydau traddodiadol, dyfarnwyd £4.4M

### Hanes

Ffurfiwyd TRACS yn 2012, gan ddwyn ynghyd Traditional Music Forum, Scottish Storytelling Forum, a Traditional Dance Forum of Scotland, pob un ohonynt yn gyrff a gyfansoddwyd ar wahân sy'n canolbwyntio ar feysydd penodol cerddoriaeth, cân, dawns ac adrodd straeon traddodiadol yr Alban.

Fe'i sefydlwyd i ddod â llais strategol i gelfyddydau traddodiadol mewn bywyd cyhoeddus ac i sicrhau bod y gymuned gerddoriaeth draddodiadol wedi'i chysylltu â'i gilydd, wedi'i pharatoi a'i gwasanaethu gan sefydliad ymroddedig er budd pawb. Ysbrydolwyd rhywfaint o hynny gan waith Trac Cymru ac roedd Trac Cymru yn 'gyfaill beirniadol' iddynt yn ystod eu proses adnewyddu strategol ffurfiol yn 2022.

### Cymorth ariannol

Cefnogir TRACS gan Gyngor Dinas Caeredin a Creative Scotland. Adroddwyd bod eu trosiant yn 2024 yn wariant o £765,000 ac yn incwm o £695,000. Roedd eu gwariant a'u hincwm yn 2023 yn £800,000 ac £890,000 yn y drefn honno.

### Bwrdd a Staff

Mae 11 aelod ar eu Bwrdd a 10 o staff sy'n gweithio o'u swyddfeydd pwrpasol yng Nghaeredin. Yn anarferol, mae ganddyn nhw arweinyddiaeth ar y cyd drwy fod â dau Gyfarwyddwr, sef David Francis a Dr Steve Byrne ar hyn o bryd, y ddau ohonyn nhw'n gerddorion ymarferol.

**Gweithgarwch**

Mae eu prosiectau'n cynnwys:

- The People's Parish, sydd am gynnwys pob plwyf yn yr Alban i fod â gweithgaredd cerddoriaeth draddodiadol
- Mentora Celfyddydau Traddodiadol sy'n cynnig datblygiad personol a phroffesiynol i ymarferwyr pob traddodiad ledled yr Alban
- Gifting Every Child, sy'n cynnig adnoddau ar-lein ac adnoddau eraill i'r sectorau addysg ffurfiol ac anffurfiol
- Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol gan ei fod yn ffurfiol yn sefydliad Intangible Cultural Heritage achrededig
- Gweinyddu ac integreiddio gwaith tri fforwm celfyddydau cenedlaethol
- Comisiynu a chyhoeddi adroddiadau sy'n sail i'w heiriolaeth dros gerddoriaeth draddodiadol yn yr Alban
- Cynnal gwefan fawr a gwasanaeth cylchlythyr sy'n manylu ar adroddiadau, newyddion, adnoddau ar gyfer dysgu, gwybodaeth a rhwydweithio
- Comisiynu gweithiau newydd a dosbarthu micro-grantiau fel rhan o'u gwaith prosiect
- Cynnig hyfforddiant a datblygiad ar ddiwylliant, amgylchedd ac addysg i eraill eu mabwysiadu

Mae'n aelod gweithredol o Rwydwaith Gwerin Ewrop.

# Atodiad 4

## Modelau Cydweithredu

Dull bach ond arwyddocaol wrth gynrychioli a chefnogi cerddoriaeth yng ngogledd Ewrop yw dull DIY/Cyfunol. Mae cerddorion a DJs annibynnol yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r swyddogaethau sydd eu hangen ar fand. Maent yn tueddu i fod yn seiliedig ar amser, yn lleol ac yn fach. Yn aml iawn nid oes ganddynt gyfansoddiad nac aelodaeth ffurfiol. Weithiau maent yn dod at ei gilydd yn fyd-eang mewn ymateb i anghenion a nodwyd.

Un model mawr a chymharol lwyddiannus yw **Global Music Match**

https://www.globalmusicmatch.com/about-us/.

Daeth hwn ynghyd yn ystod pandemig COVID pan sefydlodd yr asiantaethau allforio Showcase Scotland, FOCUS Wales, Sounds Australia ac East Coast Music Association (Canada) gydweithfa hunangymorth rhwng cyfoedion lle roedd artistiaid a gymerai ran yn 'cyflwyno' cyfranogwyr byd-eang eraill i gynulleidfaoedd ei gilydd. Hwyluswyd y broses hon gan y cymdeithasau allforio cerddoriaeth a thrwy gydweithfa bwrpasol o fentoriaid o'r diwydiant.

## Cerddoriaeth Copenhagen

https://www.copenhagenmusic.dk/ - dyma gymdeithas cyd-aelodaeth sydd â 6 cherddorfa a chôr a 'bwrdd' etholedig o 5 wedi'u dewis o blith yr aelodaeth. Ar hyn o bryd maent yn cynnwys:

BEAT THAT BLUE – corau pop a roc yn canu'r felan

NADOLIG - grŵp lleisiol acappella a bît-bocsio

DRK - Pop cerddorfaol, coreograffi a dawns

CROES GOCH YR ALMAEN – riotjazz, "I don't give a damn", band pres, meddylfryd buddugol

HEIDIS A THROWSUS - Cerddoriaeth Tyrolaidd mewn ffordd cŵl ac iddo dro modern

LLAIS - côr acappella uchelgeisiol, rhythmig

Maent yn ysgwyddo cyfrifoldeb ar y cyd am drefnu manylion ymarferion, perfformiadau, repertoire, yswiriant, logisteg, trwyddedau ac ati.

## SKINT

https://www.skintdance.org.uk/faqs/

Mae SKINT yn disgrifio ei hun fel "Penwythnos gwerin Sgandinafaidd a Rhyngwladol sy'n gynnes a fforddiadwy...lle mae pawb yn bwrw iddi i helpu". Mae'n rhan o'r mudiad 'English Bal' sy'n 30 mlwydd oed ac sy'n gydweithfa lle mae pawb yn cyfrannu. Mae'n ŵyl ac yn rhwydwaith sy'n digwydd mewn neuaddau pentref lle mae'r holl gyfranogwyr yn mynychu fel y gynulleidfa, y tîm arlwyo, gweithwyr llwyfan, cerddorion, galwyr a staff drws.

Modelau deori

Mae modelau deori neu feithrin yn debyg iawn ledled y byd. Maent yn cynnwys buddsoddi amser mewn cerddorion i ddatblygu nid yn unig eu repertoire a'u sgiliau offerynnol ond hefyd y disgyblaethau eraill sydd eu hangen i hyrwyddo'r ffurf gelf a ddewiswyd ganddynt.

Mae Acadmei Sibelius a Coleg Cerdd Kaustinen yn y Ffindir, y Royal Conservatoire of Music yn yr Alban a Phrifysgol Villjandi yn Estonia oll yn cynnig addysg ar lefel gradd mewn cerddoriaeth werin a'r sgiliau sydd eu hangen i fod yn gerddor. Er y gallwn argymell gweithio gydag o leiaf un brifysgol yng Nghymru i ddatblygu gradd mewn cerddoriaeth draddodiadol, rydym yn cydnabod bod y canlyniad hwnnw'n debygol o fod cryn amser yn y dyfodol ac y gallai lefel fwy 'agored' fod yn fwy priodol.

Y tu allan i system y prifysgolion, mae nifer o gynlluniau datblygu mewn sawl rhanbarth. Mae Trac Cymru wedi bod yn gweithio gyda'i ensemble ei hun o dan yr enw AVANC; mewn mannau eraill yng Nghymru mae Gorwelion y BBC a Beacons yn cynnig cynlluniau tebyg. Mae Trac

Mae ensemble ieuenctid gan fudiadau datblygu cerddoriaeth werin fel yr English Folk Dance and Song Society (EFDSS). Mae'r mwyafrif helaeth wedi'u hanelu at bobl ifanc yn eu harddegau cynnar ac yn rhan o raglen datblygu y tu allan i ysgolion tebyg i brosiect 'Gwerin Ifainc' Trac Cymru.

Y model deori mwyaf datblygedig yn Ewrop o bell ffordd yw **Kreizh Breizh Akademi**

https://www.drom-kba.eu/What-is-KBA.html

Mae'r Kreiz Breizh Akademi (KBA) yn seiliedig ar drosglwyddo'r Llydaweg a'i cherddoriaeth, yn ogystal â dealltwriaeth o gerddoriaeth foddol a byrfyfyrio mewn disgyblaeth.

Yr iaith a ddefnyddir yn y caneuon yw'r iaith Lydaweg yn ei hamrywiadau lleol (megis yn "kan ha diskan" a "gwerzioù").

Dyma dri phrif amcan y rhaglen:

- Dysgu technegau cerddorol yn seiliedig ar ddealltwriaeth o fodau;
- Datblygu sgiliau yn ymwneud â chyfansoddi, byrfyfyrio, dulliau trefnu a chwarae mewn cerddorfa;
- Dysgu technegau crefft llwyfan.

Mae'r KBA yn cynnig cyrsiau tair blynedd gan gynnwys rhaglen hyfforddi 12 mis ac yna cefnogaeth 24 mis mewn ymarfer proffesiynol, trwy gynhyrchu albymau a chyngherddau.

Mae gan yr KBA rhwng 12 a 18 o gerddorion sy'n aelodau, yn dibynnu ar y sesiwn, ac iddynt nodau penodol:

- Gwella cyflogadwyedd "newydd-ddyfodiaid".
- Cyfrannu at adeiladu hunaniaeth broffesiynol glir.
- Cryfhau sgiliau'r cerddorion proffesiynol.
- Cyfoethogi gwybodaeth gerddorol a diwylliannol.
- Meistroli amgylchedd cyfreithiol a phroffesiynol y sector cerddoriaeth.

Ers ei greu yn 2003, mae Kreiz Breizh Akademi wedi'i gefnogi gan:

- Rhaglen Ewropeaidd "Leader+", Région Bretagne,
- Direction Régionale des Affaires Culturelles,
- Conseils Généraux des Côtes d'Armor, du Finistère et du Morbihan.

***Sound Roots***

https://www.soundroots.uk/

Sound Roots yw'r mudiad sy'n rhedeg yr English Folk Expo, ei gŵyl werin gysylltiedig ym Manceinion, Sound Roots Connect – a hynny yn adeiladu rhwydwaith ar gyfer y diwydiant gwerin

a cherddoriaeth yng ngogledd Lloegr, ynghyd â chynnal Rhaglen Mentora Artistiaid. (https://www.englishfolkexpo.com/artist-mentoring-programme/)

Disgrifir eu rhaglen mentora artistiaid fel a ganlyn:

“Mae adeiladu gyrfa fel cerddor proffesiynol yn niwydiant cerddoriaeth y DU wedi newid yn ddirfawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos genres arbenigol fel cerddoriaeth werin, cerddoriaeth gwreiddiau a cherddoriaeth acwstig. Dros y degawd diwethaf, mae’r cyfleoedd i greu cerddoriaeth ar gael yn haws, ond mae ennill arian am y gwaith hwn yn fwy o her. Ynghyd â hyn, mae COVID-19, heriau costau byw a ffactorau rhyngwladol fel Brexit yn gwneud adeiladu gyrfa gynaliadwy hyd yn oed yn fwy ansicr.

O ganlyniad, mae’n gwbl hanfodol i unrhyw gerddor ar ddechrau ei yrfa ddeall y diwydiant y mae’n gweithio ynddo, gan ddysgu sut i weithredu a thyfu ei fusnesau ei hun. Mae bod yn gerddor yn llawer mwy na chwarae cerddoriaeth, ond i lawer o artistiaid gall hyd yn oed gwybod ble i ddechrau fod yn drech arnynt. Nod y rhaglen hon yw rhoi’r sgiliau a’r rhwydweithiau i artistiaid sy’n datblygu i ffynnu yn y DU ac mewn marchnadoedd rhyngwladol.”

Gan roi cyfle i bedwar artist yn flynyddol, mae’r rhaglen yn canolbwyntio ar Recordio, Teithio, Datblygu Cynulleidfa a sgiliau gyrfa. Mae’n cynnig cymysgedd o ddigwyddiadau preswyl, mentora a threfnu presenoldeb mewn arddangosfeydd a chynadleddau.

**Dysgu o Fodelau Cydweithredu a Deori**

Mae dwy elfen ar wahân i’r modelau hyn. Mae’r elfen gyntaf yn annibynnol, yn hyblyg ac yn cael ei arwain gan gyfranogwyr/aelodau. Mae’r ail wedi’i drefnu i ddatblygu sgiliau ar lefel broffesiynol mewn disgyblaeth. Ond mae’r ddwy elfen yn gwerthfawrogi Dysgu Gweithredol, hunanadfyfyrio, cefnogaeth gan gymheiriaid a chefnogi’r person cyfan yn hytrach nag un set fach o sgiliau penodol.

Mae’r ddau fodel wedi codi mewn ymateb i’r angen i roi mantais i genedlaethau’r dyfodol drwy ddysgu o brofiad byw ac – fel pob cerddoriaeth draddodiadol – maent yn dibynnu’n drwm ar gynheiliaid traddodiadau, arloeswyr a’r rheiny sydd eisoes wedi elwa o fuddsoddi blaenorol yn y broses werthuso fyw i fod yn sail i fersiynau yn y dyfodol.

Mae’r ddau fodel yn dibynnu’n fawr ar fodelu cydweithredol, gan ymateb i anghenion y cyfranogwyr cymaint ag i ‘ddoethineb to hŷn’ y gymuned honno.

Mae llawer o elfennau craidd y modelau hyn eisoes yn bodoli i ryw raddau yng Nghymru ym mhrosiectau datblygu’r diwydiant, er bod y modelau a ddangosir uchod naill ai’n dibynnu ar gefnogaeth digon o gyllid, neu fuddsoddiad amser gan aelodau.

O ystyried natur hylifol sector cerddoriaeth draddodiadol Cymru, a’r gyfran uchel o gydweithio a chydweithredu sy’n digwydd ar raddfa fach yn y diwydiant, gallai’r modelau hyn gynnig ffordd arloesol o gyflawni canlyniadau sylweddol a strategol dros amser a fydd yn chwyldroi ansawdd, argraff a chyrhaeddiad economaidd cerddoriaeth draddodiadol Gymreig.

Nid yw'r modelau hyn yn benodol i genre (nac i gerddoriaeth hyd yn oed), ac mae ganddynt y gallu i drawsnewid llawer iawn sut rydym ni, fel cenedl, yn buddsoddi yng nghapasiti ac uchelgais ein sector creadigol os gallwn ni ddechrau gyda'n ffurfiau celfyddydol cynhenid a thyfu o'r fan honno.

# Atodiad 5

## Cyfweliadau un-i-un

Dewiswyd yr unigolion i'w cyfweld ar gyfer y cyfweliadau manwl hyn gyda'r Comisiynydd ar sail y ffaith y gallant gynnig ystod eang o safbwyntiau ar draws y sector a'u bod yn gallu cynnig mewnwelediadau gwerthfawr ac/neu gynrychioli partneriaid allweddol neu gyd-ddarparwyr yn benodol yn y meysydd gweithgarwch sy'n cael sylw gan yr adolygiad. Roedd rhai trafodaethau hefyd yn cynnwys rhoi prawf ar syniadau a gweithgareddau posibl a amlinellwyd yn yr adran argymhellion, a mireinio arnynt ymhellach. Er bod y trafodaethau yn fras yn dilyn fformat tebyg i'r rheiny a gynhaliwyd yn y gweithdai adolygu, eto yn aml datblygai'r sgyrsiau hyn eu hynt eu hunain. Yn union fel yr oedd opsiwn i ymatebwyr yr arolwg gynnig eu barn yn ddienw, cynhaliwyd y sgyrsiau hyn yn gyfrinachol. Er nad oes angen gofal o'r fath ar y mwyafrif helaeth o'r cynnwys, ar gyfer rhai sgyrsiau, daeth yr elfen hon yn bwysig. Felly, adroddir ar y canfyddiadau drwy gadw'r sensitifrwydd hwn mewn cof.

Roedd y bobl a gyfwelwyd yn cynnwys Sioned Webb (cynheiliad traddodiad), Patrick Rimes (cynheiliad traddodiad), Angharad Jenkins (cynheiliad traddodiad), Jordan Price Williams (cynheiliad traddodiad), Sioned Edwards (Eisteddfod), Yasmine Latkowski (cyfansoddwr/perfformiwr), Meinir Llwyd (Canolfan Gerdd William Mathias), Mari Pritchard (Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol Cymru), Llio Maddocks (Urdd), Einir Sion (Ysgogwr y Gymraeg CCC / Llais y Lle) a Spike Griffiths (Beacons Cymru).

## Crynodeb o'r prif bynciau a heriau a drafodwyd

### Llawr gwlad

- Yr angen brys i newid ffocws i weithio ar lawr gwlad ac ar lefel addysgol.
- Pwysigrwydd y cyswllt â chaneuon a cherddoriaeth werin Cymru yn gynnar mewn bywyd a datblygu diddordeb mewn cerddoriaeth a sut y gall gyflwyno Cymreictod a Chymraeg i blant a rhieni, e.e. Canolfan William Mathias, Camau Cerdd i famau a babanod.
- Dileu rhwystrau i ymgysylltu â cherddoriaeth draddodiadol, e.e. datblygu strwythur dysgu sy'n syml ar gyfer cerddoriaeth werin Gymraeg (e.e. dechreuwr / canolradd / uwch) ac arholiad graddio syml cysylltiedig i gefnogi ymdeimlad o gyrhaeddiad i'r rhai a ddymuna hynny.
- Trafodaeth am deithiau'r unigolion eu hunain i fyd cerddoriaeth draddodiadol a'u llwybrau datblygiad proffesiynol.
- Sut y gallai'r sector ddatblygu a meithrin cysylltiadau pwysig â chymunedau lleiafrifol yng Nghymru a'u cerddoriaethau.

- Sut y gallai'r tîm adolygu a Chyngor Celfyddydau Cymru sicrhau bod yr argymhellion yn cefnogi cerddoriaeth draddodiadol ein holl gymunedau amrywiol i ffynnu ac i ryngweithio â'i gilydd.
- Y berthynas bwysig, cydblethedig rhwng cerddoriaeth draddodiadol a'r Gymraeg, ei diwylliant a'i chymunedau.
- Trafodaeth ar sut mae cymunedau gwledig yng Nghymru yn newid, yr effaith ar y strwythurau arferol sydd wedi cynnal ac ysgogi cerddoriaeth draddodiadol dros y canrifoedd a sut y gallai ymyriadau nawr gael effaith gadarnhaol, nid yn unig ar gerddoriaeth draddodiadol ond ar iechyd a lles pobl a dod â chymunedau ynghyd – yn enwedig yng nghymunedau gwledig Cymru.
- Llawer o enghreifftiau o brosiectau da sy'n digwydd mewn pocedi ledled Cymru, a gallai'r rhain ffurfio modelau rhagorol i'w hefelychu mewn mannau eraill.
- Pwysigrwydd datblygiad dan arweiniad y gymuned a sut y gellir cefnogi hynny.
- Manteision a heriau cystadleuaeth a chyrhaeddiad yng nghyd-destun cerddoriaeth draddodiadol.

### Addysg

- Trafodaethau ynghylch addysg gerddorol, y diffyg cyllid hanesyddol, yr angen i ddarparu adnoddau'n uniongyrchol i addysgwyr, ac i ymgysylltu'n rhagweithiol ag addysgwyr.
- Cefnogaeth a brwdfrydedd cyffredinol i'r syniad o godeiddio'r traddodiad.
- Sut i alluogi addysgwyr i gynnig gwersi cerddoriaeth draddodiadol a'r angen i gefnogi addysgwyr drwy hyfforddiant, mentrau a syniadau ynghylch ysgogi gweithgarwch ar lawr gwlad.
- Y strwythurau, y meysydd gwaith a'r ffyrdd y gallai cerddoriaeth draddodiadol ymgysylltu â'r gwaith a wneir gan Wasanaeth Cerdd Cenedlaethol Cymru i ysgogi ymgysylltiad gan addysgwyr a phlant sy'n defnyddio'r systemau sydd ar waith ar hyn o bryd.
- Roedd cryn frwdfrydedd dros swyddogaethau gwefan adnoddau addysgol *Cheranga* a'r nifer o ffyrdd y gallai hon fod yn sianel werthfawr i gyflwyno adnoddau allweddol i blant ac addysgwyr.
- Amrywiaeth yn y ddarpariaeth ar draws rhanbarthau Cymru a sut mae hynny'n cael ei adlewyrchu yn y ffaith bod Awdurdodau Lleol yn dewis Cerddoriaeth Draddodiadol fel llinyn gwaith yn eu hysgolion.

### Datblygu cerddorion

- Trafodwyd pa mor anodd oedd dod o hyd i lwybrau datblygu clir ar gyfer cerddorion traddodiadol yng Nghymru.
- Archwiliwyd y profiad bod yn gerddor/cyfansoddwr yn y sector cerddoriaeth draddodiadol yng Nghymru – beth oedd wedi gweithio, beth nad oedd wedi gweithio a beth allai fod yn ddefnyddiol i gerddorion sy'n aml yn pontio genres.

- Yr heriau sy'n codi yn sgil diflaniad lleoliadau pwysig, bach, i'w llogi am bris rhesymol lle byddai cerddorion yn aml yn dechrau gigio neu berfformio ac sydd yn draddodiadol wedi bod yn droedle pwysig i gerddorion ar ddechrau eu gyrfaoedd.
- Pwysigrwydd deall y sîn yn lleol a gweithio i gefnogi a meithrin gweithgarwch i ddatblygu cerddorion yn eu cymunedau a'u hardaloedd lleol. Gweithio ar lefel gymunedol a rhanbarthol.

## Cymorth a Datblygiad Proffesiynol

- Mae cyfoeth o wybodaeth a phrofiad na fanteisir arnynt yn y sector hwn, a'r rheiny'n barod i gefnogi a gyrru'r sector cerddoriaeth draddodiadol yng Nghymru ymlaen. Mae angen ennyn eu diddordeb nhw i ymgysylltu. Hefyd, ymdeimlad, ar hyn o bryd, mai'r un grwpiau ac unigolion sy'n tueddu i ymgysylltu dro ar ôl tro. 'Taenwch y rhwyd yn lletach!'
- Pwysigrwydd ac effaith cynheiliaid traddodiad sy'n weithgar iawn mewn rhanbarthau. Sut mae unigolion sy'n creu gweithgarwch ar lefel leol yn llunio dyfodol y traddodiad yn y lleoedd hyn. Sut mae angen cefnogaeth ar yr unigolion hyn – gallent ffynnu gyda rhywfaint o fentora a chefnogaeth a chwarae mwy o ran wrth ddatblygu'r sector yn strategol.
- Sut i fynd i'r afael â'r diffyg hyrwyddwyr, asiantiaid, rheolwyr a labeli ar gyfer cerddoriaeth draddodiadol yng Nghymru.
- Archwilio'r hyn a allai fod yn bosibl o ran mentrau mewn partneriaeth â Beacons Cymru a Cymru Greadigol a sut y gallai hyn hefyd fod yn rhan o unrhyw brosiectau a datblygiadau i fynd i'r afael â'r problemau hyn â strwythurau cefnogi.
- Yr her o arddangos artistiaid a datblygu gyrfaoedd proffesiynol heb reolwyr, asiantiaid, ac ati.

## Rhwydweithiau a chyfathrebu

- Pryder ynghylch diffyg cysylltedd ar draws y sector, diffyg datblygiad y sector ac artistiaid newydd yn amlwg yn dod i'r fei.
- Rhwystredigaeth ynghylch diffyg ymgysylltiad, gweithredu ac ymateb gan Trac i fentrau ac ymyriadau strategol allweddol. Teimlad bod eu gweithgarwch yn aml yn groes i anghenion y sector – e.e. gormod o ffocws ar waith rhyngwladol, dim digon ar lawr gwlad na mynd i'r afael â'r problemau datblygu y mae'r sector yn eu hwynebu.
- Ymdeimlad o ddibynnu gormod ar ychydig o artistiaid rhagorol i gario'r traddodiad a bod ar flaen y gad.
- Angen mwy o gydweithio a meddwl cydgysylltiedig ar draws y sector; cydnabyddiaeth bod rhywfaint o hynny'n digwydd, ond bod angen mwy.
- Cymhlethdod gofalu am rychwant 'y traddodiad' – o'r angen i drysori a diogelu elfennau hanesyddol y traddodiad i'r angen i'w gadw'n fyw drwy arloesi yn seiliedig ar sail gadarn yn y traddodiad.
- Manteision strwythur rhanbarthol
- Parodrwydd mawr i bartneru a ffurfio consortia ar gyfer cynigion ariannu ar y cyd, mentrau a phrosiectau partneriaeth, a'r rhan fwyaf o'r rhain yn gofyn am gronni ynghyd botiau bach o

fuddsoddiadau i gynnal gweithgaredd. Yr amgyffred bod diffyg partneriaid cerddoriaeth draddodiadol i ymgysylltu â nhw.

### Datblygu cynulleidfaoedd

- Mae angen mwy o gigs i bobl ifanc sy’n cynnwys sefyll a dawnsio yn hytrach na fformat cyngerdd eistedd i lawr er mwyn ymgysylltu â chynulleidfaoedd ifanc.
- Mae angen cerddoriaeth fwy traddodiadol ar draws y cyfryngau, nid dim ond wedi’i chyfyngu i rai corneli a’i gosod ar wahân mewn rhaglenni ‘cerddoriaeth draddodiadol’.